



Department for
Energy Security
& Net Zero

[3 Whitehall
Place
London
SW1A 2AW](#)

T energyinfrastructureplanning@energysecurity.gov.uk
E www.gov.uk/desnz

Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited
RWE Renewables
Windmill Hill Business Park
Swindon
SN5 6PB

Eich cyf: EN010112

19 Medi 2023

Annwyl Syr neu Fadarn,

**DEDDF CYNLLUNIO 2008: CAIS AM GYDSYNIAD DATBLYGU I FFERM WYNT
ALLTRAETH AWEL Y MÔR**

1. Rhagymadrodd

1. Fe'm cyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net ("yr Ysgrifennydd Gwladol") i ddweud wrthoch chi fod ystyriaeth wedi'i rhoi i'r adroddiad dyddiedig 20 Mehefin 2023 gan yr Awdurdod Archwilio ("yr ExA") a oedd yn cynnwys panel o bum Arolygydd; Jonathan Hockley (Arweinydd y Panel), Alex Hutson, Helen Cassini, Jason Rowlands a Richard Morgan, a gynhaliodd Archwiliad i'r cais ("y Cais") a gyflwynwyd ar 14 Ebrill 2022 gan Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited ("y Ceisydd") am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) ("y Gorchymyn") o dan adran 37 o Ddeddf Cynllunio 2008 ("Deddf 2008") i Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr a datblygiad cysylltiedig ("y Datblygiad Arfaethedig").
 - 1.1. Derbyniwyd y cais i'w Archwilio ar 18 Mai 2022. Dechreuodd yr Archwiliad ar 20 Medi 2022 ac fe'i cwblhawyd ar 20 Mawrth 2023. Cafodd yr Ysgrifennydd Gwladol Adroddiad yr ExA ar 20 Mehefin 2023.
 - 1.2. Byddai'r Gorchymyn, fel y gwnaed cais amdano, yn rhoi cydsyniad datblygu i adeiladu a gweithredu gorsaf cynhyrchu ynni alltraeth gyda chysylltiadau trydanol a fyddai'n cynnwys: hyd at 50 o generaduron tyrbinau gwynt alltraeth; seilwaith arall fferm wynt alltraeth gan gynnwys llwyfannau is-orsaf; cyswllt (drwy gyfrwng cebl tanfor) â fferm wynt alltraeth bresennol Gwynt y Môr (i'r dwyrain o'r Datblygiad Arfaethedig); hyd at ddwy gylched gebl allforio alltraeth i ddod â'r pŵer a gynhyrchied i'r lan; cysylltiadau a cheblau trydan ar y lanfa ac ar y tir; ac is-orsaf newydd ar y tir (OnSS) i ganiatáu trosglwyddo trydan i'r Grid Cenedlaethol.

- 1.3. Ochr yn ochr â'r llythyr hwn cyhoeddwyd ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol yr Arolygiaeth Gynllunio¹ gopi o Adroddiad yr ExA ar Ganfyddiadau a Chasgliadau ac Argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol ("Adroddiad yr ExA"). Mae canfyddiadau a chasgliadau'r ExA wedi'u nodi ym Mhennod 5 i 12 o Adroddiad yr ExA, a cheir crynodeb yr ExA o'r casgliadau a'r argymhellion ym Mhennod 13. Oni nodir yn wahanol, mae pob cyfeiriadau sydd wedi'i rifo yn gyfeiriad at baragraff yn Adroddiad yr ExA ["ER *.*.*"].

2. Crynodeb o Adroddiad ac Argymhelliad yr ExA

- 2.1. Nodir y prif faterion a ystyriwyd yn ystod yr Archwiliad y mae'r ExA wedi dod i gasgliadau arnynt ar sail yr achos dros gydsyniad datblygu yn Adroddiad yr ExA o dan y penawdau bras a ganlyn:

- Hedfan;
- Bioamrywiaeth, Ecoleg a'r Amgylchedd Naturiol;
- Perygl Llifogydd ac Ansawdd Dŵr;
- Amodau'r Tir a Defnyddio'r Tir;
- Amgylchedd Hanesyddol;
- Morlun, Tirwedd a Gweledol;
- Tirwedd a Gweledol
- Prosesau Ffisegol Morol ac Arfordirol
- Morol - Pysgodfeydd Masnachol, Llongau a Llywio
- Morol - Naturiol
- Ansawdd Dŵr a Gwaddod Morol
- Iechyd Cyhoeddus a Niwsans
- Sosio-economeg
- Twristiaeth a Hamdden
- Traffig a Thrafnidiaeth
- Ystyriaethau eraill

- 2.2. Mae'r ExA yn argymhell yn adran 13.3.1 (tudalen 158, cyfrol 2) o Adroddiad yr ExA y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol wneud y Gorchymyn ar y ffurf sydd ynghlwm wrth eu Hadroddiad.

- 2.3. Ac eithrio fel y nodir fel arall yn y paragraffau isod, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chanfyddiadau, casgliadau ac argymhellion yr ExA fel y'u nodir yn Adroddiad yr ExA, a'r rhesymau dros benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol yw'r rhai a roddir gan yr ExA i ategu eu casgliadau a'u hargymhellion hwythau.

3. Crynodeb o Benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol

- 3.1. Mae adran 104(2) o Ddeddf 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol, wrth benderfynu ar gais, roi sylw i unrhyw Ddatganiad Polisi Cenedlaethol (NPS) perthnasol. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benderfynu ar y cais yn unol â'r NPS perthnasol ac eithrio i'r graddau y mae un neu ragor o is-adrannau (4) i (8) yn gymwys.

¹ <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/awel-y-mor-offshore-wind-farm/?ipcsection=overview>

3.2. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried Adroddiad yr ExA a'r holl ystyriaethau perthnasol eraill yn ofalus, gan gynnwys sylwadau pellach a gafwyd ar ôl i Archwiliad yr ExA gau ac yr ymdrinnir â nhw fel y bo'n briodol yn yr adrannau o'r llythyr penderfynu isod. O dan adran 114 o Ddeddf 2008 mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi penderfynu gwneud, gydag addasiadau, Orchymyn **sy'n rhoi cydsyniad datblygu** i'r cynigion yn y Cais. Datganiad yw'r llythyr hwn o'r rhesymau dros benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion adran 116 o Ddeddf 2008 a'r hysbysiad a'r datganiad sy'n ofynnol o dan reoliad 23(2)(c) a (d) o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2009 ("Rheoliadau 2009").

4. Ystyriaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ar y Cais

4.1. Mae Deddf 2008 yn nodi proses i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ei dilyn wrth ystyried ceisiadau am Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIPs). Mae'r Datblygiad arfaethedig yn NSIP fel y'i diffinnir yn adrannau 14 a 15 o Ddeddf 2008 gan ei fod yn orsaf gynhyrchu alltraeth o fewn dyfroedd y môr tiriogaethol gerllaw Cymru gyda chapasiti o fwy na 350MW.

4.2. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried Adroddiad yr ExA a'r holl ystyriaethau perthnasol eraill, yr ymdrinnir â nhw fel y bo'n briodol yn yr adrannau o'r llythyr penderfynu isod.

4.3. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi sylw i'r Adroddiad ar yr Effaith Leol (LIR) a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych, gwybodaeth amgylcheddol fel y'i diffinnir yn rheoliad 3(1) o Reoliadau 2009, ac i'r holl faterion eraill y bernir eu bod yn bwysig ac yn berthnasol i benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â gofynion adran 104 o Ddeddf 2008 gan gynnwys polisiau perthnasol a nodir yn yr NPSs EN-1, EN-3 ac EN-5.

4.4. Cafodd y Papur Gwyn Ynni, *Powering Our Net Zero Future*, ei gyhoeddi ar 14 Rhagfyr 2020. Cyhoeddwyd adolygiad o'r gyfres o NPSs ynni ond cadarnhawyd nad oedd yr NPSs presennol yn cael eu hatal yn y cyfamser. Mae'r adolygiad o'r gyfres o NPSs ynni ar ei hanner ar hyn o bryd a bu fersiynau drafft o'r NPSs newydd yn destun ymgynghoriad a ddaeth i ben ar 29 Tachwedd 2021. Daeth ymgynghoriad pellach ar ddrafftiau diwygiedig yr NPSs i ben ar 23 Mehefin 2023. Mae'r canllawiau trosiannol yn y papur ymgynghori yn ei gwneud yn glir y dylid parhau i asesu unrhyw benderfyniadau ynghylch ceisiadau NSIPs sydd ar y gweill drwy gyfeirio at y gyfres o NPSs sydd wedi'u dynodi'n gyfredol ac sy'n dal mewn grym ac felly yn sail i ystyriaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ar y Cais. Er bod yr NPSs newydd ar ffurf ddrafft a heb eu dynodi, mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn eu bod yn bwysig ac yn berthnasol at ddibenion adran 104 o Ddeddf 2008. Gan hynny, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi sylw i'r NPSs ynni drafft wrth benderfynu ar y Cais ond nid yw o'r farn bod unrhyw beth o fewn y drafftiau o'r dogfennau NPS perthnasol a fyddai'n ei arwain i ddod i benderfyniad gwahanol ar y Cais. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd wedi ystyried Strategaeth Diogelwch Ynni Prydain (BESS) a gyhoeddwyd ar 7 Ebrill 2022, a oedd yn amlinellu'r camau i gyflymu cynnydd y llywodraeth tuag at gyflawni Sero Net erbyn 2050 a newid hirdymor o ran sicrhau pŵer rhatach a glanach.

4.5. Wrth wneud y penderfyniad, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cydymffurfio â'r holl ddyletswyddau cyfreithiol cymwys ac nid yw wedi ystyried unrhyw faterion nad ydynt yn berthnasol i'r penderfyniad.

- 4.6. Gwnaed 60 o Sylwadau Perthnasol mewn perthynas â'r Cais gan awdurdodau lleol, cynghorau cymuned, ymgynghoreion statudol eraill, ymgynghoreion anstatudol ac aelodau'r cyhoedd a busnesau. Cafodd Sylwadau Ysgrifenedig a chyflwyniadau llafar a wnaed yn ystod yr Archwiliad eu cymryd i ystyriaeth hefyd gan yr ExA.
- 4.7. Ar ôl cael Adroddiad yr ExA, nododd yr Ysgrifennydd Gwladol nifer o faterion yr oedd angen rhagor o wybodaeth neu eglurhad yn eu cylch, ac anfonwyd llythyr ymgynghori at y Partïon â Buddiant ar 14 Awst 2023. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u hymgorffori yn y llythyr penderfynu hwn yn yr adrannau perthnasol ac wedi bwydo penderfyniad terfynol yr Ysgrifennydd Gwladol ar y Cais hwn.

Y Datblygiad Arfaethedig

- 4.8. Byddai arae y Datblygiad Arfaethedig, ar ei phwynt agosaf, wedi'i lleoli 10.5km oddi ar arfordir y Gogledd yn Llandudno, gan gwmpasu cyfanswm arwynebedd o 78km². Byddai hyn yn cynnwys hyd at 50 o dyrbinau gwynt ar y môr, cysylltiadau a cheblau trydan ar y lanfa ac ar y tir, ac OnSS newydd i ganiatáu trosglwyddo trydan i'r Grid Cenedlaethol. Mae gan y Datblygiad Arfaethedig gapasiti o fwy na 350 megawat. (MW).
- 4.9. Mae nifer o ffermydd gwynt alltraeth presennol ac arfaethedig wedi'u lleoli oddi ar arfordir y Gogledd ym Môr Iwerddon. Mae'r rhain yn cynnwys datblygiadau ffermydd gwynt alltraeth fel Burbo Bank; North Hoyle; Fflatiau Rhyl, Gwynt y Môr, Traeth Duddon, Walney (1-4) a Barrow ac Ormonde ('ffermydd gwynt presennol') yn ogystal â ffermydd gwynt alltraeth arfaethedig fel Mona a Morgan. Mae HyNet Carbon Dioxide, sef piblinell ar gyfer storio alltraeth hefyd wedi'i gynnig ym Môr Iwerddon.
- 4.10. Mae'r Ceisydd hefyd yn gofyn am bwerau caffael gorfodol a phwerau meddiant dros dro, fel y nodir yn y Gorchymyn drafft a gyflwynwyd gyda'r Cais.

Hedfan

- 4.11. Mae NPS EN-1 yn dweud ei bod yn hanfodol nad yw seilwaith ynni newydd yn effeithio'n andwyol ar ddiogelwch hedfan yn y Deyrnas Unedig: lle gallai datblygiad arfaethedig gael effaith ar hedfan, e.e. buddiannau amddiffyn sifil neu filwrol neu fuddiannau amddiffyn eraill, dylid nodi asesiad o'r effeithiau posibl yn y Datganiad Amgylcheddol (ES) [ER 5.2.2.2]. Mae'n pennu y dylai unrhyw asesiad gynnwys yr effeithiau posibl ar weithrediad seilwaith cyfathrebu, llywio a gwylio, patrymau hedfan (sifil a milwrol), asedau amddiffyn eraill a gweithdrefnau gweithredol meysydd glanio, ac y dylid asesu'r effeithiau cronol posibl gyda phrosiectau perthnasol eraill mewn perthynas â hedfan ac amddiffyn [ER 5.2.3]. Mae'n ofynnol hefyd i geisydd ymgynghori â'r Weinyddiaeth Amddiffyn, yr Awdurdod Hedfan Sifil (CAA), y Gwasanaethau Traffig Awyr Gwladol (NATS) ac unrhyw faes glanio sy'n debygol o gael ei effeithio. Mae hefyd yn nodi y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol fod wedi'i fodloni bod unrhyw effeithiau sy'n gysylltiedig â'r meysydd hyn wedi cael sylw a bod effeithiau andwyol wedi'u lleihau a bod camau lliniaru rhesymol yn cael eu cyflawni.
- 4.12. Nododd yr ExA fod effeithiau posibl y Datblygiad Arfaethedig drwy greu rhwystrau hedfan ar gyfer hofrenyddion wedi'u hasesu fel effaith andwyol fawr. Er hynny, mae'r ES yn cynnwys mesurau lliniaru ar gyfer yr effaith hon, gan gynnwys: gosod goleuadau aml-gyfeiriad ar rwystrau ar gyrion yr arae, marcio'r tyrbinau, ac anfon

siartiau manwl gywir o'r arae a'r bylchau at ganolfannau hofrenyddion. O ystyried yr ES gyda'r mesurau hyn byddai'r effaith yn cael ei lleihau i effaith nad yw'n arwyddocaol [ER 5.2.18]. Bernid mai mân effaith andwyol oedd yr effeithiau cronol gyda'r ffermydd gwynt presennol hefyd, yn sgil y gwaith lliniaru a amlinellir uchod [ER 5.2.19].

- 4.13. Adolygodd yr ExA effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig a'r mesurau lliniaru arfaethedig mewn perthynas ag unrhyw effeithiau ar hedfan a chytunodd na fyddai'r effeithiau yn ystod gwaith adeiladu a datgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig yn arwyddocaol [ER 5.2.25] ac y byddai'r mesurau lliniaru ar gyfer y rhwystrau hedfan yn lleihau'r risg i lefel dderbyniol [ER 5.2.26]. Yn eu Sylwadau Perthnasol nhw, cododd y NATS bryder ynglŷn â'r Datblygiad Arfaethedig oherwydd effaith '*annerbyniol*' ar ei seilwaith nhw, ond tynnwyd eu gwrthwynebiad yn ôl wedyn ar ôl cytuno â'r mesurau lliniaru [ER 5.2.21].
- 4.14. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliadau'r ExA ac mae'n fodlon nad yw'r mater yn pwysu yn erbyn gwneud y Gorchymyn.

Bioamrywiaeth, Ecoleg a'r Amgylchedd Naturiol

- 4.15. Ystyriodd yr ExA faterion yn ymwneud â bioamrywiaeth, ecoleg a'r amgylchedd naturiol ar y môr ac ar y tir wrth adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig [ER 5.3.1].
- 4.16. Mae NPS EN-1 yn nodi'r ystyriaethau polisi sy'n berthnasol ar gyfer effeithiau bioamrywiaeth ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r ES nodi'n glir yr effeithiau ar safleoedd dynodedig o bwysigrwydd cadwraeth ecolegol, rhywogaethau a warchodir, cynefinoedd a rhywogaethau eraill y nodwyd eu bod o'r pwys mwyaf ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth [ER 5.3.2].
- 4.17. Mae NPS EN-3 yn cyfeirio at ystyriaethau bioamrywiaeth ar gyfer mamaliaid ac adar morol, gan ddal y dylai effeithiau'r cynnig ar ecoleg a bioamrywiaeth y môr gael eu hystyried ac mae'n cyfeirio at asesiad o effeithiau gosod cebl ar draws y parth rhynglanwol [ER 5.3.9]. Mae'r NPS EN-1 drafft hefyd yn disgrifio ystyriaethau bioamrywiaeth a daearegol.
- 4.18. Trafodir yr effeithiau ar safleoedd y Rhwydwaith Cenedlaethol o Safleoedd isod yn adran 5 – Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Adareg Alltraeth

- 4.19. Edrychodd yr ExA ar effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar adareg ar y môr trwy asesiad y Ceisydd a seilir ar fodel ffynhonnell-llwybr-derbynnnydd. Gan y gallai unrhyw waith adeiladu, gweithredu neu ddatgomisiynu posibl effeithio ar dderbynnnydd gan ddibynnu ar ei lwybr, ystyriodd y Ceisydd yr effeithiau a'u harwyddocâd ar adareg alltraeth. [ER 5.3.59] [ER 5.3.60].
- 4.20. Ystyriodd yr Archwiliad y materion a ganlyn: Nodweddion Sylfaenol, Modelu Risg gwrthdrawiadau (CRM), Ffliw Adar Pathogenig Iawn (HPAI), Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Penygogarth, a Mesurau Lliniaru a Monitro [ER 5.3.72].

4.21. Daeth yr ExA i'r casgliad:

- a. bod y nodweddion sylfaenol yn briodol a bod y rhychwant, yr ymdrechion a'r dulliau sy'n ofynnol ar gyfer arolygon adaregol wedi cael eu trafod gyda'r ymgynghorydd statudol perthnasol ac yn ateb anghenion NPS EN-3;
- b. bod yr asesiad CRM wedi'i gyflawni ar safon foddhaol, wedi rhoi sylw i gyngor y corff statudol (CNC) ac yn bodloni NPS EN3. Mae'r CRM a'r EIA yn dod i'r casgliad bod arwyddocâd effeithiau risg gwrthdrawiadau yn ddibwys i fân ar gyfer yr holl adar môr a aseswyd (heb fod yn arwyddocaol yn nhermau'r EIA.);
- c. bod yr ymagwedd at ledaeniad hysbys HPAI yn bodloni NPS EN-3;
- d. na cheid effaith arwyddocaol ar nodweddion SoDdGA Penygogarth o ran magu adar môr a bod yr ymagwedd yn ateb anghenion NPS EN-1 ac NPS EN-3; ac
- e. bod y mesurau lliniaru a monitro a amlinellwyd gan y Ceisydd yn briodol ac y bydd y rhai nad ydynt yn rhan o'r Gorchymyn yn cael eu diogelu drwy broses y Drwydded Forol (ML)

[ER 5.3.78] [ER 5.3.104] [ER 5.3.112] [ER 5.3.117] [ER 5.3.130].

- 4.22. Roedd yr ExA wedi'u bodloni bod darpariaethau NPS EN-1 ac NPS EN-3 a'r profion perthnasol yn y ddeddfwriaeth a'r polisi ar gyfer adareg alltraeth wedi'u bodloni, a bod y Ceisydd wedi asesu effeithiau perthnasol y Datblygiad Arfaethedig yn ddigonol. Er hynny, roedd effeithiau'r datblygiad a'r effeithiau gweddilliol yn golygu na allai'r ExA briodoli sefyllfa niwtral gyffredinol ac felly rhoddwyd pwysau cyfyngedig i'r asesiad yn erbyn gwneud y Gorchymyn. [ER 5.3.136]

Mamaliaid Morol Alltraeth

- 4.23. Edrychodd yr ExA ar effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar famaliaid morol trwy asesiad effaith amgylcheddol y Ceisydd, ar sail maint yr effaith a sensitifrwydd y derbynyddion [ER 5.3.139].
- 4.24. Ystyriodd yr ExA y materion a ganlyn: Mesurau Lliniaru a Monitro; Enillion Amgylcheddol Alltraeth Net, ac Effeithiau Cronnol [ER 5.3.155].
- 4.25. Daeth yr ExA i'r casgliad bod dull Lliniaru a Monitro y Ceisydd yn briodol ar gyfer EIA. Cymeradwywyd hyn gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), a gadarnhaodd eu bod yn fodlon â'r mesurau lliniaru yn ES y Ceisydd [ER 5.3.180] [ER 5.3.176]. Er hynny, mynegodd yr ExA fod cyfyngu monitro sŵn tanddwr i'r pedwar cyntaf o 67 o beiliau posibl yn ystod y cyfnod adeiladu yn '*gyfle a gollwyd*' i gasglu rhagor o ddata perthnasol ar gyfer ffermydd gwynt alltraeth yn y dyfodol, a fyddai'n cyd-fynd yn agosach â darpariaethau NPS EN-3.[ER.5.3.180]
- 4.26. Nododd yr ExA fod y term Enillion Amgylcheddol Alltraeth Net wedi'i ddiffinio yn NPS dEN-1 fel "*an approach to development that aims to leave the natural environment in a measurably better state than beforehand. Applicants should therefore not just look to mitigate direct harms, but also consider whether there are opportunities for enhancements*" ond gan gydnabod nad oes gofyniad ffurfiol ar hyn o bryd o du Llywodraeth Cymru na CNC am enillion net morol yng Nghymru [ER 5.3.190].

4.27. Ar fater Effeithiau Cronnol, daeth yr ExA i'r casgliad nad oedd y Datblygiad Arfaethedig yn rhag-weld unrhyw effeithiau gweddilliol arwyddocaol ac roeddent yn fodlon bod darpariaethau perthnasol NPS EN-1 ac NPS EN-3 ar gyfer asesu effeithiau cronol wedi'u bodloni [ER 5.3.202].

Bioleg, Ecoleg a'r Amgylchedd Naturiol ar y Tir

4.28. Edrychodd yr ExA ar effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig yn ystod ei gyfnodau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu ar fioamrywiaeth, ecoleg a'r amgylchedd naturiol ar y tir a hynny drwy ddefnyddio asesiad effaith amgylcheddol y Ceisydd ac ystyriwyd amryw o faterion gwahanol [ER 5.3.222] [ER 5.3.225].

4.29. Ystyriodd yr ExA sut roedd y Datblygiad Arfaethedig yn gwarchod ac yn gwella bioamrywiaeth, rhwydweithiau ecolegol, a gwytnwch ecosystemau [ER 5.3.242] a daeth i'r casgliad bod y Datblygiad Arfaethedig wedi manteisio'n llwyddiannus ar gyfleoedd i wneud hynny [ER 5.3.253]. Serch hynny, mynegodd yr ExA eu siom nad yw'r cyfnod o ôl-ofal i gynefinoedd o hyd at dair blynedd yn adlewyrchu cyfnod yr effaith byrdymor o lai na phum mlynedd a ddiffinnir yn yr ES [ER 5.3.254], gan gyfeirio at brosiectau Norfolk Boreas a Norfolk Vanguard oedd â chyfnod cynnal-a-chadw tirwedd o ddeng mlynedd ar ôl plannu [ER 5.3.248]. Ym marn yr ExA, byddai'r ôl-ofal i gynefinoedd yn wynebu risg pe bai clefyd neu ddifrod i gysylltiadau cynefinoedd yn digwydd ar ôl y cyfnod ôl-ofal (e.e., blwyddyn pedwar) [ER 5.3.254].

4.30. Edrychodd yr ExA ar yr effeithiau cyn adeiladu ar fioamrywiaeth, ecoleg a'r amgylchedd naturiol a daeth i'r casgliad ei fod yn ateb anghenion cyffredinol proses NPS EN-1 ac EIA [ER 5.3.262].

4.31. O ran ymagwedd y Ceisydd at liniaru, gwneud iawn, gwella a monitro, roedd yr ExA yn fodlon bod yr ES yn nodi effeithiau posibl y Datblygiad Arfaethedig ar gynefinoedd a rhywogaethau mewn modd priodol, ac y byddai'r mesurau arfaethedig yn helpu i warchod, gwella ac ymgorffori bioamrywiaeth fel rhan o ddyllunio da, megis yn yr OnSS (fel y'i dangosir yn yr oLEMP) [ER 5.3.283]. Roedd yr ExA yn fodlon bod dull y Ceisydd yn cydymffurfio â'r adrannau perthnasol o NPS dEN-1 ac NPS EN-1, yr oedd yr olaf ohonynt (ym marn y Ceisydd) yn darparu y gellid rhoi pwysau i fudd bioamrywiaeth, ac o'r herwydd awgrymodd y Ceisydd y gellid rhoi pwysau cadarnhaol cymedrol o blaid y Datblygiad Arfaethedig [ER 5.3.284] [ER 5.3.287]. Ystyriodd yr ExA y sefyllfa hon gan nodi, er bod mesurau gwella yn cyfrannu at ddull gweithredu budd net Llywodraeth Cymru ar gyfer bioamrywiaeth, y byddai pwysoli'r mesurau gwella yn yr OnSS yn fater i'r ExA ei ystyried yng nghyd-destun effeithiau ar fioamrywiaeth, ecoleg a'r amgylchedd naturiol ar y tir. [ER 5.3.287].

4.32. Ystyriodd yr ExA hefyd effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar gynefinoedd a rhywogaethau amrywiol. Nododd yr ExA y byddai angen i'r Ceisydd ofyn am gytundeb gyda'r tîrfeddianwyr ynghylch pa mor ymarferol fyddai hi i ailosod neu amnewid gwrychoedd [ER 5.3.296]. Fel y soniwyd o'r blaen, roedd yr ExA hefyd yn siomedig ynglŷn â chyfnod yr ôl-ofal i wrychoedd ac ystlumod, gan nodi y byddai'r risg o glefyd neu ddifrod i'r gwrychoedd yn atal llwyddiant y tu hwnt i'r cyfnod ôl-ofal arfaethedig, ac y ceid effaith ar linellau hedfan a chwilota ystlumod [ER 5.3.297] [ER 5.3.305]. Yn olaf, cadarnhaodd yr ExA nad oes unrhyw effeithiau arwyddocaol yn debygol o fod ar statws cadwraeth lleol metaboblogaethau o fadfallod cribog mawr oherwydd mesurau lliniaru a gwella amrywiol a chytunwyd bod yna botensial i adfer

metaboblogaethau'r madfallod cribog mawr ym Mharc Busnes Llanelwy i statws cadwraeth ffatriol yn y tymor canolog oherwydd yr un mesurau. [ER 5.3.313] [ER 5.3.314].

Casgliadau'r Ysgrifennydd Gwladol

- 4.33. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried casgliadau'r ExA ar fioamrywiaeth, ecoleg a'r amgylchedd naturiol, ac yn cytuno bod ES y Ceisydd yn cydymffurfio â darpariaethau polisi perthnasol NPS EN-1 ac NPS EN-3, ac yn nodi effeithiau posibl y Datblygiad Arfaethedig mewn modd priodol.
- 4.34. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â safbwynt yr ExA bod y profion presennol yn y ddeddfwriaeth a'r polisi wedi'u bodloni ar gyfer mamaliaid morol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi sylwadau'r ExA ynghylch y cyfle a gollwyd i fonitro rhagor o beiliau, ond mae'n fodlon bod y cynigion presennol yn ddigonol at ddibenion EIA, at ddibenion monitro unrhyw waith lliniaru. Er na fydd unrhyw amodau ynglŷn a monitro rhagor o beiliau'n cael eu hymgorffori yn y DCO, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn argymhell y dylai CNC ystyried hyn yn ystod y broses o gydsynio ar drwydded forol.
- 4.35. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno nad yw'r ôl-ofal cynefinoedd arfaethedig o hyd at dair blynedd yn adlewyrchu cyfnod yr effaith byrdymor o lai na phum mlynedd a ddiffinnir yn yr ES, sy'n peri risg o glefyd a difrod ar ôl y cyfnod hwn. O ganlyniad, mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn y byddai ymestyn ôl-ofal i bum mlynedd yn creu cyfnod sy'n fwy ecolegol briodol yng ngoleuni'r pryderon a godwyd mewn perthynas ag adfer cynefinoedd. Mae'r DCO wedi'i ddiwygio yn unol â hyn.
- 4.36. Yn y pen draw, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon â chasgliadau'r ExA ac mae o'r farn bod gweithredu'r mesurau a amlinellir uchod yn ddigonol i ddelio â'r materion perthnasol. Gan hynny, mae hi'n rhoi pwysau cyfyngedig yn erbyn y Gorchymyn sy'n cael ei wneud.

Perygl Llifogydd ac Ansawdd Dŵr

- 4.37. Mae NPS EN-1 yn pwysleisio mor bwysig yw ystyried datblygu a pherygl llifogydd ar bob cam o'r broses gynllunio er mwyn osgoi datblygiadau amhriodol mewn mannau sydd mewn perygl o lifogydd [ER 5.4.2].
- 4.38. Er bod ffermydd gwynt alltraeth yn llai tebygol o gael eu heffeithio gan lifogydd, cydnabu'r ExA fod NPS EN-3 yn ei gwneud yn ofynnol i Geiswyr nodi sut y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn gallu gwrthsefyll stormydd; a hefyd yn nodi y gall adeiladu, gweithredu a datgomisiynu seilwaith ynni alltraeth effeithio ar donnau a llanw, ac felly gall tyrbinau achosi effeithiau anuniongyrchol ar amddiffynfeydd llifogydd [ER 5.4.8] [ER 5.4.9].
- 4.39. Gan fod newid hinsawdd yn debygol o gynyddu'r risgiau i wydnwch rhai seilweithiau, mae NPS EN-5 yn dweud y dylai Ceiswyr nodi i ba raddau y disgwylir i'r Datblygiad Arfaethedig fod yn agored i niwed, a sut y byddai'n wydn yn erbyn materion fel llifogydd [ER 5.4.10].

- 4.40. Nododd yr ExA fod y gofynion polisi yn yr NPS EN-1, EN-3 ac EN-5 drafft mewn perthynas â risg llifogydd ac ansawdd dŵr yn gyson i raddau helaeth â'r fersiynau sydd eisoes ar gael [ER 5.4.11].
- 4.41. Ystyriodd ES y Ceisydd yr effeithiau ar hydroleg, hydroddaeareg a pherygl llifogydd sy'n deillio o adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys y potensial ar gyfer effeithiau cronol, cydgyssylltiedig a thrawsffiniol. [ER 5.4.19].
- 4.42. Amlygodd yr ES nifer o effeithiau perygl llifogydd ac ansawdd dŵr sy'n ymwneud ag adeiladu, gweithredu, datgomisiynu ac effeithiau cronol y safle [ER 5.4.24]. Serch hynny, barnwyd bod y rhain i gyd yn ddibwys yn nhermau EIA (Aseiad Effaith Amgylcheddol) [ER 5.4.28].
- 4.43. Cadarnhaodd yr ExA mai isel fyddai lefel dybiedig y risg o lifogydd y byddai'r is-orsaf yn ei chreu [ER 5.4.37]. Yn ychwanegol, ni nododd Datganiad Cynllunio'r Ceisydd, a ddaeth i'r casgliad bod aseiad y Ceisydd wedi rhoi sylw llawn i'r gofynion perthnasol a nodir yn y gofynion yn y ddeddfwriaeth a'r polisi, unrhyw effeithiau arwyddocaol mewn perthynas â hydroleg, hydroddaeareg a pherygl llifogydd, ac felly na ddylai bwyso yn erbyn buddion sylweddol y Datblygiad Arfaethedig [ER 5.4.42]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno.

Croesi Afon Clwyd heb Ffos

- 4.44. Nododd y Ceisydd y byddai angen pedwar ML ar wahân, heblaw'r un a gyflwynwyd yn wreiddiol i CNC ym mis Mehefin 2022 [ER 5.4.45]. Cadarnhaodd CNC y byddai'r MLs ychwanegol hyn yn cael eu cyflwyno a'u penderfynu o dan un cais [ER 5.4.47].

Effeithiau ar Ansawdd Dŵr (Dŵr Wyneb a Dŵr Daear)

- 4.45. Nododd CNC fod gan y gwaith arfaethedig ar y tir y potensial i effeithio ar ansawdd dŵr trwy sawl llwybr, a bod y Datganiad Dull Adeiladu amlinellol (oCMS) a'r Cynllun Atal Llygredd ac Ymateb i Ddigwyddiadau Brys amlinellol (oPPEIRP) yn cynnwys dulliau atal llygredd. Er hynny, roedd CNC o'r farn bod angen diwygiadau pellach i'r oPPEIRP er mwyn osgoi effeithiau ar ansawdd dŵr [ER 5.4.52], a chafodd y gwelliannau hyn eu gwneud a'u cyflwyno gan y Ceisydd [ER 5.4.53].

Cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

- 4.46. Nododd CNC fod y Ceisydd heb ddangos na fyddai'r gwaith arfaethedig yn arwain at ddirywiad yn elfennau ansawdd y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) gan ofyn am ragor o waith i gadarnhau amodau'r safle a'r dulliau croesi penodol a gynigiwyd ym mhob lleoliad [ER 5.4.57]. Hefyd, nid oedd effeithiau anuniongyrchol newidiadau mewn hydroforffoleg ar elfennau ansawdd y WFD wedi'u hasesu'n briodol gan y Ceisydd, a gofynnodd CNC am aseiad manylach o effeithiau posibl yr holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â chroesi cyrsiau dŵr. [ER 5.4.58].
- 4.47. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Ceisydd fod yr oCMS wedi'i ddiweddarau i egluro y byddai unrhyw opsiynau ar gyfer llwybrau croesi i geblau heb ffos neu lwybr tynnu mewn cwlfer yn cael eu monitro'n agos er mwyn nodi a oedd anffurfiadau yn y sianel yn dechrau digwydd, er mwyn i gamau priodol gael eu cymryd [ER 5.4.59].

- 4.48. Roedd CNC yn fodlon bod y Ceisydd wedi mynd i'r afael â'u pryderon yn yr oCMS, a fyddai'n cael eu sicrhau trwy Ofyniad (R)10 yn y DCO drafft (dDCO) [ER 5.4.60]. Roedd yr ExA yn fodlon y byddai'r ddeialog barhaus rhwng y Ceisydd ac CNC yn sicrhau y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cydymffurfio â'r WFD ac yn atal dirywiad mewn unrhyw elfennau ansawdd perthnasol yn y WFD [ER 5.4.62].

Datgymhwyso'r Drwydded Gweithgareddau Perygl Llifogydd

- 4.49. I ddechrau, roedd y Ceisydd yn gofyn am ddatgymhwyso'r gofyniad bod rhaid cael Trwydded Gweithgareddau Perygl Llifogydd (FRAP) o dan Erthygl 7(c) o'r dDCO sy'n darparu ar gyfer cymhwyso ac addasu darpariaethau deddfwriaethol. Cydnabu'r ExA farn CNC nad oedd wedi cydsynio i gynnwys yr erthygl, a bod angen i CNC gadw eu swyddogaethau rheoleiddio o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol mewn perthynas â'r gwaith, o gofio arbenigedd sefydledig CNC yn y maes [ER 5.4.69]. Am y rhesymau hyn, cytunodd y Ceisydd i dynnu Erthygl 7(c) o'r dDCO, ac roedd yr ExA yn fodlon â hyn. [ER 5.4.72].

Gwaith Amddiffyn yr Arfordir

- 4.50. Nododd yr ExA bryder CSD, oherwydd agosrwydd y gwaith arfaethedig ar y lanfa, a fyddai'r rhain yn gallu cydfodoli â'r gwaith amddiffyn arfordirol. Ar ôl cael diweddariad gan y Ceisydd cadarnhaodd CSD a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) na cheid unrhyw broblemau. Roedd yr ExA yn fodlon na fyddai gwaith y lanfa yn ymyrryd â'r gwaith amddiffyn arfordirol [ER 5.4.75] [ER 5.4.76].

Cyflenwad Dŵr Preifat ar leoliad Faenol Bropor/OnSS

- 4.51. Doedd y Ceisydd ddim yn ymwybodol bod y ffynnon ar safle Faenol Bropor yr oedd yn bwriadu ei gaffael wedi'i chofrestru fel cyflenwad dŵr preifat [ER 5.4.78]. Cadarnhaodd y Ceisydd y byddai gan y tiffeddianwyr ddarpariaeth mynediad bendant i'w galluogi i gael mynediad i'r tir sydd i'w brynu er mwyn cynnal y ffynnon [ER 5.4.79]. Roedd yr ExA o'r farn bod y Ceisydd yn gwneud ymdrechion 'teg a rhesymol' i sicrhau bod y cyflenwad dŵr preifat yn cael ei gynnal, a bod mynediad yn cael ei ddarparu yn ystod y gwaith adeiladu [ER 5.4.82].

Casgliadau'r ExA

- 4.52. Roedd yr ExA yn fodlon bod y Ceisydd wedi mynd i'r afael yn ddigonol â'r perygl llifogydd a'r effeithiau posibl ar ansawdd dŵr sy'n gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig ac maen nhw'n fodlon nad yw'r materion yn pwyso o blaid nac yn erbyn gwneud y Gorchymyn. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliadau'r ExA [ER 5.4.100].

Amodau'r Tir a Defnyddio Tir

- 4.53. Mae NPS EN-1 yn cydnabod y bydd prosiect seilwaith ynni yn cael effeithiau uniongyrchol ar ddefnydd presennol y safle arfaethedig ac y gallai gael effeithiau anuniongyrchol ar ddefnydd y tir neu ddefnydd arfaethedig y tir yn y cyffiniau yn achos mathau eraill o ddatblygiad [ER 5.5.3].
- 4.54. Mae NPS EN-1 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i geiswyr leihau'r effeithiau ar y tir amaethyddol gorau a mwyaf hyblyg (BMVAL), a ddiffinnir fel tir graddau 1, 2 a 3a y

Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC). Dylid rhoi'r flaenoriaeth i ddefnyddio tir mewn ardaloedd o ansawdd waeth, gan gynnwys graddau 3b, 4 a 5 yr ALC, oni bai y byddai hyn yn anghyson ag ystyriaethau cynaliadwyedd eraill. Pan fydd angen datblygu tir amaethyddol, dylai ceiswyr geisio defnyddio tir o ansawdd waeth yn hytrach na thir o ansawdd uwch [ER 5.5.4].

- 4.55. Ystyriodd ES y Ceisydd yr effeithiau ar amodau tir a defnydd tir sy'n deillio o adeiladu, gweithredu, datgomisiynu ac effeithiau cronol y Datblygiad Arfaethedig [ER 5.5.14]. Ar gyfer y cyfnod adeiladu, nododd asesiad yr ES effeithiau yn amrywio o andwyol dibwys i andwyol mân [ER 5.5.18]. Ar gyfer y cyfnod gweithredu, roedd yr effeithiau'n amrywio o andwyol dibwys i andwyol mân [ER 5.5.19]. Ar gyfer datgomisiynu, aseswyd bod yr effeithiau'n andwyol dibwys i andwyol mân [ER 5.5.20], ac ar gyfer effeithiau cronol, ni nodwyd unrhyw effeithiau andwyol [ER 5.5.21]. Bernid nad oedd yr holl effeithiau o'r fath yn arwyddocaol o ran EIA.
- 4.56. Daeth Datganiad Cynllunio'r Ceisydd i'r casgliad nad oes unrhyw effeithiau arwyddocaol wedi'u nodi ac, o'r herwydd, na ddylai effeithiau ar amodau tir a defnydd tir bwysu yn erbyn buddion sylweddol y Datblygiad Arfaethedig [ER 5.5.27].

Adnoddau ac Ansawdd Pridd

- 4.57. Roedd yr ExA yn fodlon bod y Ceisydd wedi ceisio lleihau'r effeithiau ar ansawdd pridd trwy fesurau lliniaru trwy gyfrwng R10 yn y dDCO, oedd yn eu barn nhw yn ddigonol i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau andwyol arwyddocaol o'r Datblygiad Arfaethedig [ER 5.5.160]. Gan hynny, nid yw'r ExA o'r farn bod unrhyw faterion sy'n ymwneud ag adnoddau pridd a fyddai'n pwysu o blaid neu yn erbyn gwneud y Gorchymyn. [ER 5.5.162].

Colli BMVAL

- 4.58. Nododd yr ExA mai is-radd 3b fyddai'r rhan fwyaf o'r tir BMVAL a gâi ei golli'n barhaol, sef tir o ansawdd waeth [ER 5.5.162], ac roedden nhw'n fodlon, yn unol ag NPS EN-1, fod y Ceisydd wedi ceisio lleihau'r effeithiau ar BMVAL ac y byddai'n defnyddio tir o ansawdd waeth [ER 5.5.165]. Rhoddodd yr ExA bwysau cyfyngedig i golli tir amaethyddol o ansawdd wael gradd 3b yn yr ALC a'r swm cyfyngedig o dir gradd 3b a fyddai'n cael ei effeithio'n barhaol. [ER 5.5.166]. Gan hynny, rhoddodd yr ExA bwysau cyfyngedig i faterion yn ymwneud â'r effaith ar BMVAL yn erbyn gwneud y Gorchymyn. [EE 5.5.167].

Effaith ar dirfeddiannaeth

- 4.59. Daliai'r ExA mai niwed cyfyngedig oedd i'w weld mewn perthynas â'r rhan fwyaf o dirfeddiannaeth, gan mai dros dro y byddai angen y rhan fwyaf o'r tir ac y câi ei ddychwelyd i'w ddefnydd gwreiddiol, a byddai mesurau yn y Cod Ymarfer Adeiladu yn darparu lefelau digonol o liniaru i leihau effeithiau andwyol [ER 5.5.168].
- 4.60. Er y byddai dros 50% o'r daliad mewn perthynas â'r Faenol Brodor yn cael ei dynnu oherwydd yr OnSS a'r seilwaith cysylltiedig, nododd yr ExA byddai'r pecyn iawndal sy'n daladwy i'r tinfeddiannwr yn gwneud iawn yn ddigonol am yr effaith [ER 5.5.169].

- 4.61. Daeth yr ExA i'r casgliad mai pwysau cyfyngedig yn erbyn gwneud y Gorchymyn a ddylai gael eu rhoi i'r effaith ar dirfeddiannaeth [ER 5.5.172].

Halogi Tir a Diogelu Mwynau

- 4.62. Daeth yr ExA i'r casgliad nad oes unrhyw faterion yn ymwneud â halogiad daear [ER 5.5.175] a diogelu mwynau [5.5.176] a fyddai'n pwysu o blaid neu yn erbyn gwneud y Gorchymyn.

Casgliadau'r Ysgrifennydd Gwladol

- 4.63. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliadau'r ExA ac mae'n fodlon bod asesiad y Ceisydd yn cydymffurfio â'r nodau a'r gofynion polisi perthnasol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r ExA ac mae'n rhoi pwysau cyfyngedig yn erbyn gwneud y Gorchymyn i'r materion sy'n ymwneud ag amodau daear a defnyddio tir.

Amgylchedd Hanesyddol

- 4.64. Mae Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Penderfyniadau) 2010 yn nodi bod rhaid i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau, wrth benderfynu ar gais sy'n effeithio ar Adeilad Rhestredig neu ei leoliad, ystyried 'dymunoldeb' cadw'r adeilad neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb hanesyddol sydd ganddo. [ER 5.6.3].
- 4.65. Mae NPS EN-1 yn nodi, y dylai'r Ceisydd, fel rhan o'r ES, ddarparu disgrifiad o arwyddocâd yr asedau treftadaeth y mae'r Datblygiad Arfaethedig yn effeithio arnynt a chyfraniad eu lleoliad i'r arwyddocâd hwnnw [ER 5.6.5].
- 4.66. Mae'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu'r Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru wedi'i osod gan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, Deddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979, a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Polisi Cynllunio Cymru (11eg Argraffiad, Chwefror 2021) sy'n darparu'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol [ER 5.6.12].

Effeithiau Archaeolegol yn yr Ardal Rynglanwol – Llwybr Cebel ar y Tir a Safle'r OnSS Arfaethedig

- 4.67. Trwy'r mesurau lliniaru yn R12 yn y dDCO, daeth yr ExA i'r casgliad na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar fuddiannau archaeolegol ar y tir. [ER 5.6.132].

Effeithiau ar Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig ar Lwybr y Cebel ar y Tir a'r OnSS

- 4.68. Oherwydd natur fyrdymor, wrthdroadwy y gwaith ceblau arfaethedig ar y tir, daeth yr ExA i'r casgliad na fyddai'r agwedd hon ar y Datblygiad Arfaethedig yn cael effaith andwyol ar adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig. Câi'r OnSS fân effaith andwyol ar yr Ysgubor i'r gogledd-orllewin o Faenol Bropor a Pharc a Gardd Gofrestredig Castell Bodelwyddan yn ystod y gwaith adeiladu ac yn ystod y cyfnod gweithredu. Byddai'r cynllun tirlunio arfaethedig yn darparu rhywfaint o fesurau lliniaru, ond byddai hyn yn cael ei gyfyngu gan raddfa'r OnSS [ER 5.6.133].

Effeithiau Anuniongyrchol ar Adeiladau Rhestredig – Henebion Cofrestredig a Thirweddau Hanesyddol Cymru, a'r Effaith ar Landudno

- 4.69. Daeth yr ExA i'r casgliad y byddai'r arae alltraeth yn ystod y cyfnod gweithredu yn cael effeithiau anuniongyrchol dibwys a mân ar amrywiol adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig a thirweddau hanesyddol Cymru [ER 5.6.134] ac effeithiau andwyol cymedrol, y bernir eu bod yn arwyddocaol yn nhermau EIA, ar Bier Llandudno (Gradd II*), Tŵr Ynys Seiriol a Heneb Gofrestredig Gweddillion yr Eglwys a'r Sefydliad Mynachaid [ER 5.6.136].

Effeithiau Uniongyrchol Alltraeth

- 4.70. Daeth yr ExA i'r casgliad na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig, gyda'r mesurau lliniaru a sicrheir yn yr ML, yn cael effaith andwyol ar asedau treftadaeth alltraeth [ER 5.6.138].

Casgliadau'r Ysgrifennydd Gwladol

- 4.71. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliad yr ExA na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at niwed arwyddocaol na cholled lwyr o arwyddocâd i unrhyw ased treftadaeth dynodedig (fel y'i diffinnir yn NPS EN-1) [ER 5.6.141]. Serch hynny, mae'r niwed a gâi ei achosi i asedau treftadaeth amrywiol o effaith andwyol fân i gymedrol yn ystod y cyfnod gweithredol yn arwain yr Ysgrifennydd Gwladol i roi pwysau cymedrol yn erbyn gwneud y Gorchymyn [ER 5.6.144]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwybodol bod rhaid iddi roi cryn bwysigrwydd a phwysau i'r niwed hwnnw pan fo niwed i ased treftadaeth yn cael ei nodi, ac mae'n gwneud hynny yn yr achos hwn. Er hynny, yng ngoleuni budd cyhoeddus y Datblygiad, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r ExA y byddai'r niwed a achosir yn cael effaith andwyol ac mae'n rhoi pwysau cymedrol iddo yn erbyn gwneud y Gorchymyn.

3.1. Morlun, Tirwedd a Gweledol

- 4.72. Mae NPS EN-1 yn dweud y dylai ceiswyr gynnal asesiad tirwedd ac asesiad gweledol a chyflwyno adroddiad arno yn yr ES. Dylai hyn ystyried unrhyw asesiadau o gymeriad y dirwedd, polisïau perthnasol mewn cynlluniau datblygu lleol, a'r effeithiau y nodwyd y bydd y Datblygiad Arfaethedig yn eu creu [ER 5.7.3].
- 4.73. Mae paragraff 5.9.18 o NPS EN-1 yn nodi'r canllawiau canlynol ar gyfer y rhai sy'n gwneud penderfyniadau: "All proposed energy infrastructure is likely to have visual effects for many receptors around proposed sites. The [Secretary of State] will have to judge whether the visual effects on sensitive receptors, such as local residents, and other receptors, such as visitors to the local area, outweigh the benefits of the project."
- 4.74. Pan fydd fferm wynt alltraeth arfaethedig i'w gweld o'r lan, mae NPS EN-3 yn nodi y dylid cynnal asesiad o'r morlun ac asesiad effaith weledol gan gynnwys asesiad o hyd a lled y canfyddiad gweledol o'r arfordir, nodweddion unigol yr arfordir sy'n effeithio ar ei allu i amsugno'r datblygiad, a sut mae pobl yn canfod y morlun ac yn rhyngweithio ag ef [ER 5.7.11].

- 4.75. Asesodd Asesiad y Ceisydd o'r Morlun, y Dirwedd a'r Effaith Weledol (SLVIA) yr effeithiau a gâi elfennau alltraeth y Datblygiad Arfaethedig yn ystod ei gyfnod adeiladu, gweithredu a datgomisiynu [ER 5.7.18]. Nododd y SLVIA² nifer o effeithiau andwyol arwyddocaol ac anarwyddocaol o fewn tirweddau dynodedig statudol, gan gynnwys Ardal Harddwch Naturiol Ynys Môn (AHNE) a Pharc Cenedlaethol Eryri, wrth adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r gwaith alltraeth ar gymeriad y morlun, cymeriad y dirwedd, golygfannau cynrychioliadol, y golygfeydd o aneddiadau a golygfeydd o lwybrau troed/llwybrau beicio/ffyrdd [ER 5.7.39].

Asesiad o'r Morlun, y Dirwedd a'r Effeithiau Gweledol

- 4.76. Cododd CNC bryderon ynghylch yr effeithiau andwyol arwyddocaol niferus a helaeth ar y morlun, y dirwedd a'r derbynyddion gweledol o fewn AHNE Ynys Môn a Pharc Cenedlaethol Eryri ac o fewn eu lleoliadau, effeithiau andwyol ar nodweddion arbennig AHNE Ynys Môn a Pharc Cenedlaethol Eryri a gwrthdaro â'r diben statudol o warchod a gwella harddwch naturiol yr ardaloedd dynodedig hyn. [ER 5.7.50]. O ran Golygfan (VP) 36, asesodd y Ceisydd yr effeithiau o'r olygfan yma fel rhai cymedrol andwyol ac nid arwyddocaol. Er hynny, am y rhesymau a roddwyd, cytunodd yr ExA ag CNC y byddai'r effeithiau gweledol yn arwyddocaol (ond cymedrol andwyol) [ER 5.7.63].
- 4.77. Er gwaethaf yr ystyriaeth uchod o VP 36, roedd yr ExA o'r farn bod y Ceisydd wedi dangos yn ddigonol na fyddai'r effeithiau ar Ardal Cymeriad Tirwedd Parc Cenedlaethol Eryri (LCA) 01, lle mae VP 12, 36, 38 a 40 wedi'u lleoli, yn arwyddocaol. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth nad yw effeithiau ar gymeriad tirwedd yn deillio yn unig o ganlyniad i welededd, terfynau'r Parth Gwelededd Damcaniaethol cyffredinol o fewn yr LCA, y dylanwadau dynol presennol ar hyd yr arfordir ac effeithiau cyfyngedig ar nodweddion sy'n ymwneud â llongyddwch, pellenigrwydd a gwylltineb [ER 5.7.64].

Effeithiau ar Dirweddau Dynodedig

- 4.78. Cydnabu'r ExA y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at nifer o effeithiau andwyol arwyddocaol wrth adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r gwaith alltraeth ar y morlun, y dirwedd a derbynyddion gweledol, y mae rhai ohonynt yn cyd-fynd â thirweddau dynodedig statudol, gan gynnwys AHNE Ynys Môn. Byddai effeithiau arwyddocaol hefyd yn codi ar gyfer rhai o nodweddion arbennig AHNE Ynys Môn. Hefyd, mae rhai sgil-effeithiau arwyddocaol yn cyd-fynd â derbynyddion o fewn tirweddau dynodedig anstatudol, gan gynnwys Arfordir Treftadaeth y Gogarth ac Arfordir Treftadaeth Gogledd Môn [ER 5.7.72].
- 4.79. Fe geid hefyd nifer o sgil-effeithiau anarwyddocaol ar y morlun, y dirwedd a derbynyddion gweledol, y mae rhai ohonynt yn cyd-fynd â derbynyddion o fewn tirweddau dynodedig cenedlaethol, gan gynnwys AHNE Ynys Môn, Parc Cenedlaethol Eryri ac AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Ceid hefyd rai effeithiau andwyol nad ydynt yn arwyddocaol ar rai o nodweddion arbennig Parc Cenedlaethol Eryri ac AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Yn ychwanegol, mae rhai sgil-effeithiau nad ydynt yn arwyddocaol yn cyd-fynd â derbynyddion o fewn

² Tabl 6, tudalen 179

tirweddau dynodedig anstatudol, gan gynnwys Arfordir Treftadaeth y Gogarth ac Arfordir Treftadaeth Gogledd Môn [ER 5.7.73].

- 4.80. Er bod y Ceisydd wedi ceisio osgoi cyfaddawdu'r dibenion statudol cyn belled ag y bo modd, roedd yr ExA o'r farn, o gofio'r niwed a nodwyd, y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn methu â chadw neu wella harddwch naturiol tirweddau dynodedig AHNE Ynys Môn, AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a Pharc Cenedlaethol Eryri, yn groes i'r diben statudol hwn. Roedd yr ExA o'r farn y byddai hyn yn fwy felly ar gyfer AHNE Ynys Môn a Pharc Cenedlaethol Eryri o gofio bod effeithiau arwyddocaol wedi'u nodi mewn perthynas â'r tirweddau dynodedig hyn [ER 5.7.74].
- 4.81. Roedd yr ExA yn fodlon na ellid lliniaru effeithiau arwyddocaol trwy ostyngiad bach yng ngraddfa'r Datblygiad Arfaethedig [ER 5.7.78].

Cynllun Gwella Tirwedd

- 4.82. Mae nodyn y Ceisydd ar y pwysau sydd i'w roi i wella'r dirwedd yn derbyn na all y Datblygiad Arfaethedig lliniaru'n llawn yr effeithiau andwyol ar dirweddau dynodedig heb effeithio ar hyfywedd economaidd y prosiect. Gan hynny, byddai'r cynllun i wella'r dirwedd drwy R26 y dDCO yn gwneud iawn am effeithiau andwyol arwyddocaol sy'n ymwneud ag AHNE Ynys Môn, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Arfordir Treftadaeth y Gogarth trwy gryfhau, atgyfnerthu neu wella eu nodweddion, eu harbenigrwydd, eu nodweddion arbennig neu eu hymdeimlad o le dros y tymor hir [ER 5.7.85]. Mae dogfen egwyddorion y Ceisydd yn nodi manylion y broses hon, sy'n manylu ar y mecanwaith ar gyfer cyflawni'r cynllun, cronfa arfaethedig o £5,000,000, proffil talu o 30 mlynedd a grŵp llywio sy'n cynnwys Cyngor Sir Ynys Môn, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, CNC, CBSC a CSD, yn ogystal â Phartïon eraill sydd â Buddiant Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod hyn yn ddull derbyniol.
- 4.83. Roedd yr ExA o'r farn y byddai'r Cynllun Gwella Tirwedd arfaethedig yn helpu i wneud iawn am effeithiau andwyol arwyddocaol ar y tirweddau dynodedig perthnasol. Mynegodd CNC eu dewis nhw o weld taliadau cychwynnol yn cael eu gwneud yn ystod y cyfnod adeiladu yn hytrach na phan fo'r datblygiad yn weithredol, gan fod yr effeithiau arwyddocaol wedi'u hadrodd yn ystod y cyfnod adeiladu [ER 5.7.84]. Nododd yr ExA y gellid trafod hyn rhwng y partïon yn nes ymlaen gan gredu bod hyn yn gais rhesymol, o gofio y byddai effeithiau andwyol arwyddocaol yn digwydd yn ystod y cyfnod adeiladu. [ER 5.7.86].
- 4.84. Nododd yr ExA fod NSP EN-1 yn cydnabod na ddylai prosiect arfaethedig sy'n weladwy o'r tu mewn i ardal ddynodedig ynddo'i hun fod yn rheswm dros wrthod cydsyniad. Derbyniodd yr ExA fod y Ceisydd wedi ceisio osgoi, cyn belled ag y bo modd, peryglu dibenion dynodiad ac wedi rhoi sylw i ddyluniad sensitif gan ystyried gwahanol gyfyngiadau'r lleoliad a'r gweithredu a chyfyngiadau perthnasol eraill. Roedd yr ExA yn ymwybodol y byddai graddau daearyddol yr effeithiau andwyol ar dirweddau dynodedig yn gymharol gyfyngedig wrth ystyried dynodiadau AHNE Ynys Môn, AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a Pharc Cenedlaethol Eryri yn eu cyfanrwydd ac y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn gwrthdaro â nifer gyfyngedig o'u priod nodweddion arbennig yn unig. Roedd yr ExA o'r farn y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r gofynion polisi [ER 5.7.94]. Er hynny, o gofio'r niwed a nodwyd, rhoddodd yr ExA bwysau arwyddocaol yn erbyn gwneud y

Gorchymyn i'r effeithiau andwyol ar y morlun, y dirwedd a materion gweledol ynglŷn â'r gwaith alltraeth arfaethedig. [ER 5.7.95].

- 4.85. Byddai'r cynllun gwella tirwedd arfaethedig, a sicheir o dan R26 o'r Cynllun Cydsyniad Datblygu a argymhellir (rDCO), yn gwneud iawn am rywfaint o'r niwed i'r morlun a'r dirwedd a'r niwed gweledol a nodwyd a byddai'n darparu buddion i dirweddau dynodedig dros y tymor hwy, gan gynnwys mewn perthynas â rhai o'u nodweddion arbennig. Rhoddodd yr ExA bwysau cymedrol i fuddion y cynllun gwella tirwedd o blaid gwneud y Gorchymyn [ER 5.7.96].
- 4.86. A dweud y gwir, ni fyddai'r cynllun gwella tirwedd yn lliniaru'r niwed a achosir gan y Datblygiad Arfaethedig i'r morlun, y dirwedd a'r derbynyddion gweledol, gan na fyddai'n sgrinio nac yn lleihau effeithiau gweledol y Generaduron Tyrbinau Gwynt arfaethedig ar y derbynyddion. Er hynny, fe allai ddarparu buddion eraill ac fe fyddai o bosibl yn gwella'r derbynyddion a nodwyd a'u nodweddion arbennig. Roedd hyn yn lleihau'r pwysau cyffredinol a roddwyd gan yr ExA i niwed yn deillio o'r effeithiau andwyol ar y morlun, y dirwedd a materion gweledol yn sgil y Datblygiad Arfaethedig [ER 5.7.97].

Casgliadau'r Ysgrifennydd Gwladol

- 4.87. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried casgliadau'r ExA ac yn cytuno bod yr effeithiau presennol a achosir gan y Datblygiad Arfaethedig yn effeithiau andwyol arwyddocao a, gan hynny, mae'n rhoi pwysau sylweddol i hyn yn erbyn gwneud y Gorchymyn.

Tirwedd a Gweledol

- 4.88. Mae NPS EN-1 yn dweud y dylai ceiswyr gynnal Asesiad o'r Effaith Weledol ar y Dirwedd (LVIA) a ddylai ystyried unrhyw asesiadau o gymeriad y dirwedd ac unrhyw bolisiâu perthnasol mewn cynlluniau datblygu lleol. [ER 5.7.3].
- 4.89. Mae NPS EN-3 yn nodi y dylid cynllunio tyrbinau gwynt yn briodol i leihau niwed [ER 5.7.13]. Mae hefyd yn nodi y dylai cynigion ar gyfer seilwaith ynni adnewyddadwy ddangos dyluniad da mewn perthynas â thirwedd ac amwynder gweledol [ER 5.3.10].
- 4.90. Mae NPS EN-5 yn cydnabod y gall is-orsafoedd newydd a seilwaith arall uwchben y ddaear sy'n ffurfio pwyntiau cysylltu, pwyntiau newid a phwyntiau trawsnewid foltedd arwain at effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol [ER 5.7.14].
- 4.91. Mae'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn nodi y dylai polisiâu a phenderfyniadau cydsynio gyfrannu a gwella'r amgylchedd naturiol trwy gydnabod cymeriad cynhenid a harddwch cefn gwlad [ER 5.7.5].
- 4.92. Asesodd yr LVIA yr effeithiau andwyol posibl ar y dirwedd a'r effeithiau gweledol andwyol posibl yn ystod y cyfnod adeiladu, gweithredu, a datgomisiynu [ER 5.8.5], ac edrychodd ar ddulliau lliniaru gwahanol (e.e. dewis llwybr y Coridor Cefl Allforio (ECC) i osgoi colli coed a gwrychoedd yn ystod y gwaith adeiladu / adfer tir ar hyd llwybr ECC yn ystod y cyfnod gweithredu.) [ER 5.8.19] [ER 5.8.20].

- 4.93. Amlygodd yr LVIA ystod o effeithiau andwyol arwyddocaol ac anarwyddocaol tebygol ar y tirlun ac effeithiau gweledol andwyol arwyddocaol ac anarwyddocaol tebygol wrth adeiladu'r llwybr ECC ac adeiladu a gweithredu'r OnSS [ER 5.8.21].
- 4.94. Nododd asesiad gweledol y Ceisydd effeithiau arwyddocaol wrth adeiladu'r OnSS ac ym mlwyddyn 1, gyda'r effeithiau'n gostwng i effeithiau anarwyddocaol ym mlwyddyn 15 o ganlyniad i'r ffaith y byddai planhigion y dirwedd a'r coetir yn cael eu plannu ac yn tyfu [ER 5.8.31]. Amlygodd CSD ac Awdurdodau Cynllunio Lleol Gogledd Cymru y diffyg asesiad gweledol o adeiladu a gweithredu'r OnSS ar feddianwyr y Faenol Bropor a defnyddwyr Gwarchodfa Natur Glascoed. Hefyd, cododd y ddau y cyfnodau ôl-ofal hirdymor, gan ffafrio cyfnod o 15 mlynedd ar gyfer amnewid unrhyw blanhigion sy'n gysylltiedig â safle'r OnSS yn hytrach na'r cyfnod o 5 mlynedd yn R9 yn y dDCO [ER 5.8.25].
- 4.95. Daliai'r Ceisydd fod y cyfnod yn ddigonol o gofio bod 5 mlynedd yn gyffredinol yn cael ei ystyried yn gyfnod safonol o amser i benderfynu a oedd planhigion wedi ymsefydlu neu wedi methu a bod angen rhai newydd yn eu lle [ER 5.8.39]. Yn y pen draw, cytunodd yr ExA â'r farn hon, gan ddod i'r casgliad y byddai cyfnod tirwedd o 5 mlynedd, ar y cyd â Chynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg (LEMP) yn manylu ar fesurau plannu, rheoli a chynnal a chadw, yn ddigonol i sicrhau bod y gwaith tirlunio'n debygol o fod yn effeithiol yn y tymor hir [ER 5.8.41].
- 4.96. Yn dilyn cwestiwn gan yr ExA cynhwysodd y Ceisydd baramedrau uchder ar gyfer adeiladau a strwythurau sy'n gysylltiedig ag Is-orsaf Aer wedi'i Inswleiddio (AIS) yn y dDCO [ER 5.8.32].
- 4.97. Cododd Mr Davies, preswylydd lleol, bryderon ynghylch effeithiau gweledol a rhwystrau o'i eiddo ef yn sgil adeiladu a gweithredu'r OnSS [ER 5.8.28]. Eglurodd y Ceisydd y byddai darpariaeth yn cael ei gwneud i drigolion lleol gyflwyno sylwadau ar gynigion tirwedd, ac y byddai'r llain goediog arfaethedig yn cael ei gosod yn ôl er mwyn sgrinio'r OnSS heb amharu ar gyfran fawr o'r olygfa bresennol. Roedd yr ExA o'r farn bod hyn yn ganlyniad digonol [ER 5.8.33].
- 4.98. Cododd Charlotte Bowers bryderon ynghylch colli tir llain werdd ac effeithiau gweledol [ER 5.8.27]. Eglurodd y Ceisydd na fyddai'r OnSS yn meddiannu unrhyw dir a ddynodwyd fel llain werdd, gan dynnu sylw at y ffaith y byddai coridorau gwyrdd yn cael eu cynnal neu eu creu, ac y byddai colledion gwrychoedd yn cael eu lliniaru drwy adfer tir ar hyd llwybr yr ECC, ailsefydlu gwrychoedd, plannu coed gwrychoedd a gwaith lliniaru a gwella tirwedd ac ecoleg o fewn safle'r OnSS, [ER 5.8.35]
- 4.99. Roedd CSD ac CNC wedi llofnodi Datganiad Tir Cyffredin gyda'r Ceisydd yn cytuno ar bob mater ynglŷn â materion LVIA mewn perthynas â'r gwaith ar y tir. [ER 5.8.37].

Casgliadau'r ExA

- 4.100. Roedd yr ExA yn fodlon y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cyd-fynd ag NPS EN-1, NPS EN-3 ac NPS EN-3 (ac â'r NPSs drafft hyn) ac â Pholisïau VOE2 a VOE10 yn y DCCLDP mewn perthynas â thirwedd a materion gweledol y gwaith ar y tir. [ER 5.8.45].

- 4.101. Gan nodi y byddai elfennau'r ECC a'r OnSS ar y tir yn arwain at rai effeithiau arwyddocaol lleol ar nodweddion tirwedd, cymeriad tirwedd a derbynyddion gweledol, wrth i'r gwaith plannu arfaethedig ar y dirwedd aeddfedu, roedd yr ExA yn fodlon y byddai effeithiau arwyddocaol o'r fath yn lleihau'n sylweddol erbyn blwyddyn 15 i'r mwyafrif o dderbynyddion [ER 5.8.42].
- 4.102. Cydnabu'r ExA y byddai effeithiau andwyol arwyddocaol gweddilliol mewn perthynas â thirwedd a materion gweledol yn gyfyngedig ac yn lleol: rhoddodd bwysau cymedrol yn erbyn gwneud y Gorchymyn [ER 5.8.45]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliadau'r ExA.

Prosesau Ffisegol Morol ac Arfordirol

- 4.103. Mae NPS EN-1 yn dweud bod rhaid i geiswyr ystyried effeithiau newid hinsawdd wrth gynllunio lleoli, dylunio, adeiladu, gweithredu a, lle bo'n briodol, datgomisiynu seilwaith ynni newydd [ER 5.9.2]. Mae hefyd yn dweud mai nod y Llywodraeth yw sicrhau bod ein cymunedau arfordirol yn dal i ffynnu ac addasu at newid arfordirol. [ER 5.9.3].
- 4.104. Mae NPS EN-3 yn trafod y dylai'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau fod yn fodlon bod y dulliau o adeiladu a defnyddio deunyddiau yn lleihau'n rhesymol yr effeithiau posibl ar yr amgylchedd ffisegol sy'n eu derbyn [ER 5.9.6]. Mae hefyd yn nodi y dylai'r Ceisydd ystyried ffosio ceblau i ddyfnder priodol a defnyddio technegau sgwrio amddiffynnol o amgylch strwythurau alltraeth. [ER 5.9.7].
- 4.105. Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn dweud y dylai ceiswyr ddangos eu bod wedi ystyried effeithiau newid hinsawdd a'u bod wedi ymgorffori mesurau addasu priodol [ER 5.9.10]. Mae hefyd yn trafod y dylai ceiswyr, yn nhrefn eu dewis, anelu at osgoi, lleihau a lliniaru effeithiau cronol. [ER 5.9.11].
- 4.106. Mae ES y Ceisydd yn ystyried effeithiau posibl y Datblygiad Arfaethedig ar broses forol a ffisegol [ER 5.9.19 et seq]. Nodir mesurau lliniaru yn y Rhestr Mesurau Lliniaru a Monitro a'r ES [ER 5.9.29].

Amddiffyniad Sgwrio Eilaidd

- 4.107. Cododd CNC bryderon am yr ansicrwydd ynghylch dimensiwn y sgwrio eilaidd a fyddai'n digwydd gan ofyn am waith fonitro ar ôl adeiladu. Cadarnhaodd y Ceisydd y rhagwelir y bydd monitro yn cael ei wneud ac y byddai'n cael ei sicrhau drwy gyfrwng yr ML. Roedd yr ExA yn fodlon â'r ddarpariaeth hon [ER 5.9.37].

Treillio a Gwaredu Deunydd Treillio

- 4.108. Nododd CNC nad oedd hi'n glir a fyddai'r ECC alltraeth yn cael ei drwyddedu fel safle gwaredu yn y cais ML sy'n gysylltiedig ag ardal yr arae, ac atebodd y Ceisydd y byddent yn gwneud cais am drwydded waredu neu drwyddedau angenrheidiol eraill pe bai angen hynny. Roedd yr ExA yn fodlon ag ymateb y Ceisydd [ER 5.9.41].

Casgliadau'r Ysgrifennydd Gwladol

- 4.109. Adolygodd yr ExA effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig mewn perthynas â phrosesau ffisegol morol ac arfordirol ac roedd yn fodlon bod y Ceisydd wedi mynd i'r afael â'r

effeithiau ac wedi cynnwys mesurau lliniaru. Er bod lliniaru y tu allan i'r broses Archwilio, roedd yr ExA yn fodlon y byddai swyddogaethau'r ML yn mynd i'r afael â'r rhain [ER 5.9.42]. Roedd yr ExA yn fodlon bod y Ceisydd wedi mynd i'r afael yn llawn â newidiadau posibl yn yr hinsawdd yn eu hasesiad [ER 5.9.43]. O ran effeithiau cronol nid ystyriwyd dwy effaith oherwydd diffyg gwybodaeth ac roedd yr ExA yn fodlon â hyn. [ER 5.9.44].

4.110. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliadau'r ExA ac mae'n fodlon nad yw'r mater yn pwysu yn erbyn gwneud y Gorchymyn.

Morol - Pysgodfeydd Masnachol, Llongau a Mordwyo

4.111. O ran pysgota, mae NPS EN-3 yn dweud y dylai ceiswyr gynnal arolygon manwl o effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar stociau pysgod ac y dylid ymgynghori ynghylch graddau posibl parthau diogelwch a'r effeithiau ar weithgaredd pysgota [ER 5.10.3]. Mae hefyd yn nodi y dylai'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau fod yn fodlon bod y broses o ddewis y safle yn rhesymol yn lleihau effeithiau andwyol ar stociau pysgod [ER 5.10.5]. Mae NPS EN-3 yn trafod y dylai cynigion lliniaru ddeillio o'r ymgynghori rhwng ceisydd a'r diwydiant pysgota, a lle bo'n rhesymol bosibl gael eu cynllunio i ddod ag unrhyw fuddion cadarnhaol posibl yn y tymor canolig a'r tymor hir i'r diwydiant pysgota a stociau pysgod [ER 5.10.6].

4.112. O ran llongau a mordwyo mae NPS EN-3 yn dweud y bydd angen i ddatblygiad arfaethedig gydfodoli â defnyddio'r môr at ddibenion mordwyo ac y bydd angen i'r Ceisydd gynnal Aseiad o'r Risg i Fordwyo (NRA) [ER 5.10.11] [ER 5.10.12]. Mae hefyd yn dweud na ddylai'r penderfynwr roi cydsyniad datblygu lle mae bydd ymyrraeth â'r defnydd o lonydd môr cydnabyddedig sy'n hanfodol ar gyfer mordwyo rhyngwladol yn cael ei achosi, ac y dylid lleihau unrhyw amhariad ehangach ar y diwydiannau llongau a mordwyo neu golledion economaidd iddyn nhw [ER 5.10.13]. Mae NPS EN-3 yn trafod y dylid ystyried parhad gweithgareddau chwilio ac achub a'r effeithiau ar gychod hamdden; ac y dylai unrhyw risgiau annerbyniol i ddiogelwch mordwyo yn sgil mesurau lliniaru arwain at beidio â chaniatáu'r cais am gydsyniad [ER 5.10.14].

4.113. Mae ES y Ceisydd yn ystyried effeithiau posibl y Datblygiad Arfaethedig ar bysgodfeydd masnachol, llongau a mordwyo [ER 5.10.35 et seq].

Pysgota – Nodweddion Sylfaenol, Ymgynghori, a Methodoleg

4.114. Cododd Sefydliad Cynhyrchwyr Pysgod Manaw, Ynys Manaw a Janet Finch-Saunders bryderon nad oedd cychod bach o dan 15m o hyd yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn briodol yn aseiad y Ceisydd [ER 5.10.51 et seq]. Aeth y Ceisydd i'r afael â'r pryder hwn trwy wella'i ddealltwriaeth o weithgaredd pysgota o dan 15m o hyd drwy gyfrwng data o arolygon traffig morol ar y safle penodol, cyfeirio at ystadegau glanio pysgodfeydd, cyfweliadau unigol â physgotwyr a chyfarfodydd â grwpiau pysgodfeydd [ER 5.10.51 et seq]. Roedd yr ExA yn fodlon â'r ymateb hwn [ER 5.10.61].

Pysgota - Stociau Pysgod Masnachol

- 4.115. Mynegodd Mr Carl Davies, Ynys Manaw a Janet Finch-Saunders bryderon y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at gwmp mewn stociau pysgod yn ystod y gwaith adeiladu [ER 5.10.62 et seq]. Ysgrifennodd yr ExA hefyd at y Ceisydd [ER 5.10.63]. Ymatebodd y Ceisydd gan nodi y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn ystod y gwaith adeiladu yn cael effaith gymedrol ar bysgodfeydd cewyll a fyddai'n cael ei leihau i effaith andwyol fân trwy waith liniaru trwy ymgorffori Cynllun Cyswllt a Chydfodoli Pysgodfeydd (FLCEP), cytundebau cydweithredu a thaliadau cysylltiedig [ER 5.10.69]. Roedd yr ExA yn fodlon, gyda gwaith lliniaru perthnasol, nad oedd yr effeithiau gweddilliol ar bysgodfeydd masnachol yn arwyddocaol, bod ystyriaeth i gael ei rhoi i'r dewis o ddeunydd amddiffyn cebl, ac ar ôl cael cydsyniad, y byddai'r Ceisydd yn ystyried dyluniad a allai ddarparu gwelliant ecolegol ar gyfer pysgota. Nododd yr ExA y byddai ymrwymiad, yn hytrach nag ystyriaeth, i fuddion y tymor canol a'r tymor hir wedi bod yn well [ER 5.10.74].

Llongau a Mordwyo - Parthau diogelwch, cynllun y bylchau rhwng strwythurau a llwybrau llongau

- 4.116. Ymatebodd Trinity House, ac Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA) eu bod yn fodlon ar bellteroedd a chynllun y parth diogelwch, ac nad oedd y Datblygiad Arfaethedig yn ymyrryd â lonydd llongau môr [ER 5.10.95 et seq]. Cododd yr ExA gwestiynau i'r Ceisydd ynghylch effeithiau yn sgil adeiladu cyfleuster porthladd sylfaen ac ymatebodd y Ceisydd gan nodi y byddai mesurau lliniaru safonol y diwydiant yn cael eu defnyddio, megis cydlynu morol, a chydymffurfio â rheoliadau gwladwriaethau baner ac y byddai'r broses o ddewis porthladd adeiladu a gweithredu'n digwydd ar ôl cael cydsyniad [ER 5.10.102].

Llongau a Llywio - Asesiad Risg Mordwyo

- 4.117. Ymatebodd Trinity House ac MCA eu bod yn fodlon ar yr NRA [ER 5.10.114]. Cododd Siambr Llongau y Deyrnas Unedig bryderon diogelwch ynghylch digwyddiadau tebygol lle byddai un llong yn taro yn erbyn llong arall oedd yn stond ond nododd yr ExA y dylid delio â'r pryderon hyn fel rhan o ML [ER 5.10.108]. Atebodd y Ceisydd gan ddweud bod nifer y digwyddiadau yn isel, ac y câi'r rhan fwyaf o'r effaith ei hamsugno gan y Generaduron Tyrbîn Gwynt a'r sylfeini. Cydnabu Siambr Llongau y Deyrnas Unedig y nifer isel o ddigwyddiadau, gan ddweud na fyddai eu pryder yn cael unrhyw effaith o sylwedd ar gasgliad yr asesiad [ER 5.10.108]. Roedd yr ExA yn fodlon bod yr NRA wedi'i gynnal i safon foddhaol a darparodd y Ceisydd gyfres o gynlluniau templed morol i'w sicrhau gydag ML [ER 5.10.114 et seq].

Casgliadau'r Ysgrifennydd Gwladol

- 4.118. Roedd yr ExA yn fodlon bod y Ceisydd wedi mynd i'r afael ag effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig mewn perthynas â physgodfeydd masnachol, llongau a mordwyo [ER 5.10.76 a 5.10.119]. Dywedodd yr ExA fod y Ceisydd wedi cynnal ymgynghoriad perthnasol a chyflawni NRA, wedi adnabod unrhyw lonydd môr ac wedi ystyried parthau diogelwch, ac wedi dangos parhad mewn gweithgareddau chwilio ac achub ac wedi ystyried canllawiau'r MCA a chanllawiau'r Sefydliad Morwrol Rhyngwladol [ER 5.10.116 et seq]. Mae mesurau lliniaru wedi'u nodi yn y Rhestr Mesurau Lliniaru

a Monitro, yr ES ac egwyddorion yr ML. Mae mesurau lliniaru i'w sicrhau fel rhan o ML [ER 5.10.118].

- 4.119. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cydnabod barn yr ExA y byddai'n fuddiol cael ymrwymiad yn hytrach nag ystyriaeth i roi mesurau lliniaru ar waith i wella, lle bo hynny'n rhesymol bosibl, unrhyw fanteision tymor canolig a hirdymor posibl i'r diwydiant pysgota a'r stociau pysgod masnachol. Er hynny, gan nad yw'r effeithiau gweddilliol ar bysgodfeydd masnachol yn arwyddocaol yn nhermau EIA a chyda'r gwaith lliniaru perthnasol, mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn nad yw'n effeithio ar y broses benderfynu h.y. nad yw'n angenrheidiol er mwyn bodloni'r EIA. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn argymhell y dylai CNC ystyried cynnwys darpariaeth yn yr ML sy'n annog y Ceisydd i ymrwymo i roi'r mesurau lliniaru perthnasol ar waith.
- 4.120. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliadau'r ExA ac mae'n fodlon nad yw'r mater yn pwysu yn erbyn gwneud y Gorchymyn.

Morol – Naturiol

- 4.121. Mae NPS EN-1 yn dweud, fel egwyddor gyffredinol, y dylai datblygiad anelu at osgoi niwed arwyddocaol i fioamrywiaeth a buddiannau cadwraeth daearegol, gan gynnwys trwy waith lliniaru ac ystyried dewisiadau rhesymol eraill a lle na ellir osgoi niwed arwyddocaol, yna dylid chwilio am fesurau priodol i wneud iawn. [ER 5.11.2].
- 4.122. Mae NPS EN-3 yn dweud bod tystiolaeth o'r ffermydd gwynt alltraeth presennol yn dangos ei bod wedi bod yn bosibl lleoli ffermydd gwynt mewn ardaloedd ecolegol sensitif lle mae'r tyrbinau wedi'u lleoli'n ofalus yn dilyn asesiadau ac y dylai ceiswyr werthuso'r effeithiau ar ecoleg a bioamrywiaeth ar y môr ar gyfer pob cam ar hyd oes y fferm wynt alltraeth arfaethedig. [ER 5.11.3].
- 4.123. O ran pysgod, mae NPS EN-3 yn ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd nodi rhywogaethau pysgod sy'n derbyn yr effeithiau mwyaf tebygol mewn perthynas â thiroedd silio, tiroedd meithrin, meysydd bwydo, manau gaeafu ar gyfer cramenogion a llwybrau mudo, ac mae o'r farn y dylai unrhyw gydsyniad a roddir fod yn hyblyg i ganiatáu ar gyfer meicroleoli angenrheidiol elfennau o'r fferm wynt arfaethedig i ganiatáu ar gyfer digwyddiadau annisgwyl. Mae hefyd yn dweud y dylai ceiswyr asesu'r effeithiau ar yr amgylchedd islanwol yn sgil colli cynefinoedd drwy baratoi sylfeini a gwely'r môr, y sgwrio a ragwelir, amddiffyn drwy sgwrio a newid phrosesau gwaddodol ac effeithiau ar yr amgylchedd benthig yn sgil coesau estynadwy ac angorau llongau adeiladu ac aflonyddu ar y cynefin yn y parth rhynglanwol wrth osod a symud ceblau [ER 5.11.4]. Cydnabu'r ExA fod llawer o'r NPS EN-3 drafft yn adlewyrchu'r NPS EN-3 presennol [ER 5.11.5].
- 4.124. Mae ES y Ceisydd yn ystyried effeithiau posibl y Datblygiad Arfaethedig ar rywogaethau, cynefinoedd, pysgod a physgod cregyn benthig. [ER 5.11.1].

Ecoleg Fenthig

- 4.125. Cododd yr ExA bryderon nad oedd effeithiau sŵn ar ecoleg benthig wedi cael eu hasesu a'u bod wedi'u gosod y tu allan i rychwant yr ystyriaethau. Eglurodd y Ceisydd fod y diwydiant yn cydnabod nad oes effeithiau arwyddocaol tebygol ar adnoddau ecoleg benthig. Mae'r ExA yn cydnabod hyn [ER 5.11.18] [ER 5.11.20].

INNS a Bioddiogelwch

- 4.126. Nododd a chymeradwyodd yr ExA farn CNC y dylai maint yr effaith yn sgil cyflwyno rhywogaethau estron goresgynnol morol (INNS) fod yn isel gan fod yna risg barhaus y bydd INNS yn cael eu cyflwyno [ER 5.11.21], ac felly nid yw'n effaith arwyddocaol yn nhermau EIA.

Effeithiau Cronnol

- 4.127. Roedd CNC o'r farn bod data'r Ceisydd ar boblogaethau pysgod, gan gynnwys cyflymder nofio, yn gorddatgan niferoedd y pysgod sy'n silio a fyddai'n ffoi o'r derbynyddion gan arwain at senarios poblogaeth pysgod afrealistig [ER 5.11.27]. Nododd y Ceisydd, er gwaethaf hyn, nad oedd yna ddadl ynglŷn â chasgliadau'r ES [ER 5.11.28].
- 4.128. Gofynnodd CNC hefyd am ragor o wybodaeth am sut roedd yr effeithiau cronnoel posibl i boblogaethau pysgod dros sawl tymor silio yn sgil sŵn tanddwr o'r gwaith adeiladu olynol ar nifer o brosiectau fferm wynt alltraeth ym Mae Lerpwl wedi cael eu hystyried [ER 5.11.27]. Lluniodd y Ceisydd Asesiad o'r Effeithiau Cronnol (CEA) a ddatrysodd y mater er boddhad CNC [ER 5.11.30].

Casgliadau'r ExA

- 4.129. Adolygodd yr ExA effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig mewn perthynas ag effeithiau morol gan ddweud na fyddai'r effeithiau ar draws pob cam yn arwyddocaol oherwydd y mesurau lliniaru arfaethedig a geid yn yr ML [ER 5.11.34] [ER 5.11.35]. Daeth yr ExA i'r casgliad mai pwysau cyfyngedig yn erbyn gwneud y Gorchymyn oedd yn yr effeithiau morol naturiol [ER 5.11.36].

Casgliadau'r Ysgrifennydd Gwladol

- 4.130. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â rhesymau'r ExA yn eu casgliad ac o'r herwydd mae'n rhoi pwysau cyfyngedig yn erbyn gwneud y Gorchymyn i'r materion sy'n ymwneud â Morol Naturiol.

Ansawdd Dŵr a Gwaddod Morol

- 4.131. Mae NPS EN-1 yn dweud y gall datblygu seilwaith greu effeithiau andwyol ar yr amgylchedd dŵr, megis dyfroedd arfordirol. At hynny, mae'n tynnu sylw at yr angen i asesu effeithiau datblygiad ar ansawdd dŵr, adnoddau dŵr a nodweddion ffisegol yr amgylchedd dŵr. [ER 5.12.2].
- 4.132. Mae NPS EN-3 yn nodi bod angen ystyried effeithiau datblygiad morol yn nhermau ansawdd dŵr, tonnau, llanwau, sgwrio, cludo gwaddodion a solidau crog. Yn ychwanegol, mae'n nodi y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol fod yn fodlon bod y dulliau o adeiladu a defnyddio deunyddiau yn rhesymol yn lleihau effeithiau posibl ar yr amgylchedd ffisegol sy'n eu derbyn [ER 5.12.5].
- 4.133. Cynhaliodd y Ceisydd asesiad o ansawdd dŵr morol a gwaddodion, a nodwyd hyn yn y Datganiad Amgylcheddol. Diffiniwyd Parth Dylanwad a nodwyd derbynyddion ansawdd dŵr morol a gwaddodion a allai gael eu heffeithio'n arwyddocaol gan y Datblygiad Arfaethedig. [ER 5.12.11] to [5.12.13].

- 4.134. Cynhaliwyd asesiadau ar effeithiau adeiladu, gweithredu, datgomisiynu ac effeithiau cronol y datblygiad arfaethedig ar ansawdd dŵr a gwaddodion. Nodwyd ystod o effeithiau ar gyfer y gwahanol effeithiau hyn ond yn gyffredinol, ar gyfer pob cam daethpwyd i'r casgliad nad oedd yr effeithiau a nodwyd yn arwyddocaol yn nhermau EIA [ER 5.12.17- 5.12.21]. Daeth y datganiad cynllunio a gyflwynwyd hefyd i'r casgliad nad oedd effeithiau arwyddocaol wedi'u nodi ar ansawdd dŵr morol a gwaddodion [ER 5.12.27]
- 4.135. Nodir bod CNC yn anghytuno â chasgliadau'r asesiad a wnaed mewn perthynas â halogion rhwymedig gwaddodion a'u bod wedi gofyn am ragor o wybodaeth. Hefyd, gofynnodd CNC i Adroddiad i Lywio Asesiad Priodol (RIAA) gael ei ddiweddarau hefyd i adlewyrchu'r wybodaeth newydd. Cyflwynodd y Ceisydd nodyn eglurhad ond nid oedd o'r farn bod angen diweddarau'r RIAA. Ar ôl i'r wybodaeth gael ei chyflwyno, cadarnhaodd CNC eu bod yn fodlon nad oedd risg mwyach o waddod halogedig. Cytunwyd ar Ddatganiad o Dir Cyffredin ar bob mater mewn perthynas ag ansawdd dŵr morol a gwaddodion gyda'r Ceisydd [ER 5.12.30] i [5.12.34], [ER 5.12.28].
- 4.136. Nid oedd CNC yn cytuno y gellid ystyried bod effaith gollyngiadau damweiniol yn effeithiau dros dro ac felly'n ddibwys andwyol yn nhermau EIA. Cyflwynodd y Ceisydd nodyn eglurhad a daeth y ddwy ochr i gytuno y gellid ystyried bod yr effaith weddilliol yn ddibwys andwyol ar yr amod bod ymrwymadau i waith lliniaru yn yr ES a'r nodyn eglurhad yn cael eu hymgorffori mewn Cynllun Rheoli Amgylcheddol ar gyfer y Prosiect ac mewn Cynllun Wrth Gefn Llygredd Morol ac yn cael eu cyflwyno ar ôl cael cydsyniad [ER 5.12.40] to [ER 5.12.43].
- 4.137. Roedd yr ExA yn fodlon y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cydymffurfio ag amcanion y WFD ac na fyddai'n arwain at ddirywiad mewn unrhyw gorff dŵr dynodedig neu ardal warchoddedig ac na fyddai'n peryglu cyrraedd statws da na'r potensial i gyflawni statws ecolegol a chemegol da [ER 5.12.49.]
- 4.138. Roedd yr ExA yn fodlon bod y Ceisydd wedi mynd i'r afael yn llawn ag effeithiau ansawdd dŵr morol a gwaddod posibl sy'n gysylltiedig ag adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig ac y gellir lliniaru a rheoli risgiau o'r fath yn foddhaol. [ER 5.12.52].
- 4.139. Daeth yr ExA i'r casgliad bod asesiad y Ceisydd o ansawdd dŵr morol a gwaddod a'r mesurau lliniaru arfaethedig, a fyddai'n cael eu sicrhau yn yr ML, yn cydymffurfio â nodau polisi NPS EN-1 ac EN-3 a, lle bo'n berthnasol, yr NPS EN-1 ac EN-3 drafft. Felly, nododd yr ExA nad oedd unrhyw faterion yn ymwneud ag ansawdd dŵr morol a gwaddod a fyddai'n pwysu o blaid nac yn erbyn gwneud y Gorchymyn. [ER 5.12.52] i [5.12.54].

Casgliadau'r Ysgrifennydd Gwladol

- 4.140. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliadau'r ExA ac mae'n fodlon bod asesiad y Ceisydd yn cydymffurfio â'r nodau a'r gofynion polisi perthnasol. Gan hynny, does dim materion yn ymwneud ag ansawdd dŵr morol a gwaddod a fyddai'n pwysu o blaid neu yn erbyn gwneud y Gorchymyn.

Iechyd y Cyhoedd a Niwsans

Sŵn a Dirgrynu

- 4.141. Mae NPS EN-1 yn cydnabod y gall gormod o sŵn a dirgrynu gael effeithiau eang ar ansawdd bywyd, iechyd, defnydd a mwynhad ardaloedd [ER 5.13.7], ac na ddylid rhoi cydsyniad datblygu oni bai bod modd osgoi effeithiau arwyddocaol ar iechyd ac ansawdd bywyd [ER 5.13.13]. Yn ychwanegol, dylai'r ES gynnwys asesiad sŵn, yn unol ag NPS EN-3 [ER 5.13.16].
- 4.142. Mae NPS EN-1 yn nodi bod effeithiau iechyd arwyddocaol sy'n deillio o'r prosiectau hynny yn debygol o fod yn destun rheoliadau ar wahân a fyddai'n golygu lliniaru effeithiol a'i bod yn annhebygol, felly, y byddai effeithiau iechyd yn rheswm dros wrthod cydsyniad neu'r angen am waith lliniaru o dan Ddeddf 2008.
- 4.143. At hynny, mae NPS EN-5 yn cyfeirio at feysydd electromagnetig a gynhyrchir gan geblau trydan a'u heffeithiau posibl ar iechyd pobl. Er mai mater ar gyfer llinellau uwchben yw hwn yn bennaf (mae'r potensial ar gyfer meysydd electromagnetig yn cael ei leihau drwy osod ceblau trydan o dan ddaear), mae NPS EN-5 yn ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad fod yn fodlon bod unrhyw gynnig seilwaith yn cyd-fynd â'r Canllawiau Diogelu Ymbelydredd Di-loneiddio (ICNIRP). Mae NPS EN-5 yn dod i'r casgliad, pan fo amlygiad i feysydd electromagnetig o fewn lefelau cyfeirio ICNIRP, nad yw'n debygol y bydd angen mesurau lliniaru.
- 4.144. Roedd yr ExA yn fodlon bod y Ceisydd wedi asesu'n llawn yr effeithiau sŵn a dirgryniad posibl sy'n gysylltiedig ag adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig gan ddweud bod modd lliniaru'r risgiau a nodwyd yn foddhaol trwy R15 o'r rDCO [ER 5.13.122].
- 4.145. Rhoddodd yr ExA bwysau cyfyngedig yn erbyn gwneud y Gorchymyn. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r casgliad hwn [ER 5.13.124].

Ansawdd Aer

- 4.146. Mae NPS EN-1 yn dweud y gall datblygu seilwaith gael effeithiau andwyol ar ansawdd aer yn y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu [ER 5.13.125].
- 4.147. Roedd yr ExA yn fodlon bod y Ceisydd wedi asesu'n llawn yr effeithiau ansawdd aer posibl sy'n gysylltiedig ag adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig ac y gellid lliniaru'r risgiau a nodwyd yn foddhaol trwy R10 o'r rDCO [ER 5.13.177].
- 4.148. Rhoddodd yr ExA bwysau cyfyngedig yn erbyn gwneud y Gorchymyn. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r casgliad hwn [ER 5.13.179].

Llygredd Golau

- 4.149. Mae NPS EN-1 yn dweud bod gan ddatblygiad seilwaith y potensial ar gyfer rhyddhau ystod o allyriadau gan gynnwys golau artiffisial, ac y dylai'r Ceisydd asesu'r potensial i olau artiffisial gael effaith niweidiol [ER 5.13.180].

- 4.150. Roedd yr ExA yn fodlon bod y Ceisydd wedi asesu'n llawn yr effeithiau llygredd golau posibl sy'n gysylltiedig ag adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig ac y gellid lliniaru'r risgiau a nodwyd yn foddhaol trwy R19 o'r rDCO [ER 5.13.203].
- 4.151. Rhoddodd yr ExA bwysau cyfyngedig yn erbyn gwneud y Gorchymyn. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r casgliad hwn [ER 5.13.205].

Iechyd Pobl

- 4.152. Mae NPS EN-1 yn cydnabod bod gan gynhyrchu ynni y potensial i effeithio ar iechyd a lles y boblogaeth ac er bod mynediad at ynni yn amlwg o fudd i iechyd, fe allai'r gwaith cynhyrchu a dosbarthu gael effeithiau negyddol [ER 5.13.206].
- 4.153. Roedd yr ExA yn fodlon bod y Ceisydd wedi mynd i'r afael yn llawn â'r effeithiau posibl ar iechyd pobl sy'n gysylltiedig ag adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig gan ddweud bod modd lliniaru'r risgiau a nodwyd yn foddhaol trwy R21 ac R22 o'r rDCO [ER 5.13.246].
- 4.154. Mae'r ExA wedi rhoi pwysau cyfyngedig yn erbyn gwneud y Gorchymyn [ER 5.13.248]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r casgliad hwn.

Niwsans yn y Gyfraith Gyffredin a Niwsans Statudol

- 4.155. Mae NPS EN-1 yn dweud bod gan ystod o allyriadau y potensial i achosi niwsans yn y gyfraith gyffredin neu niwsans statudol o dan Ran III o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 [ER 5.13.249].
- 4.156. Edrychodd yr ExA ar yr holl asesiadau a gyflwynwyd gan y Ceisydd gan nodi na chafwyd cyflwyniadau o sylwedd gan Bartion â Buddiant mewn perthynas â niwsans cyfraith gyffredin neu niwsans statudol yn ystod yr Archwiliad. [ER 5.13.253].
- 4.157. Dyfarnodd yr ExA nad yw mater niwsans yn pwysu o blaid nac yn erbyn gwneud y Gorchymyn [ER 5.13.256].

Casgliadau Cyffredinol yr Ysgrifennydd Gwladol

- 4.158. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi sylwebaeth yr ExA ar effaith gyffredinol y Datblygiad Arfaethedig i iechyd pobl a niwsans, a chasgliad yr ExA fod hyn yn cario pwysau cyfyngedig yn erbyn gwneud y Gorchymyn. [ER 5.13.258]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r casgliad hwn.

Sosio-economeg

- 4.159. Mae NPS EN-1 yn ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd, os yw prosiect yn debygol o gael effeithiau sosio-economaidd, ymgymryd ag asesiad o'r effeithiau hynny. Dylai'r ceisydd neu'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau hefyd ystyried a oes angen mesurau lliniaru i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol posibl. [ER 5.14.2] [ER 5.14.5].
- 4.160. Nododd yr ExA fod effaith fuddiol gymedrol arwyddocaol wedi'i nodi mewn perthynas ag economi'r Gogledd ac economi Cymru, ac effaith gronol y gwaith adeiladu ar economi'r Gogledd yn ystod y cyfnod gweithredu, sy'n arwyddocaol yn nhermau EIA

[ER 5.14.183]. Roedd yr ExA o'r farn y gallai'r buddion hyn gael eu hategu gan y Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth derfynol, a allai ddarparu hyfforddiant cadarnhaol a defnyddiol i bobl a chwmnïau lleol [ER 5.14.184]. Nodwyd mân effeithiau buddiol ar gyflogaeth a'r economi hefyd fel rhan o'r asesiad [ER 5.14.22] [ER 5.14.23].

Effaith Sgil-golledion a'r Ynni a Gynhyrchir

- 4.161. Cydnabu'r ExA yr anghytundeb rhwng Fferm Wynt Gwastadeddau'r Rhyl (RFFWF) a'r Ceisydd wrth ddehongli NPS EN-3³, o ran y sgil-golledion posibl a allai ddeillio o'r Datblygiad Arfaethedig [ER 5.14.41]. Ym marn RFFWF, byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn creu risg o leihau'r ynni gwynt sy'n cyrraedd y tyrbinau presennol yn ôl 2% o'r ynni a gynhyrchir ganddynt [ER 5.14.42].
- 4.162. Pan gynigir fferm wynt alltraeth bosibl yn agos at seilwaith alltraeth gweithredol presennol neu pan fo ganddi'r potensial i effeithio ar weithgareddau y mae trwydded wedi'i rhoi ar eu cyfer gan y Llywodraeth, mae NPS EN-3 yn dweud y dylai'r Ceisydd gynnal asesiad o effaith bosibl y Datblygiad Arfaethedig ar y seilwaith neu'r gweithgareddau presennol neu ar seilwaith neu'r gweithgareddau sydd wedi'u caniatáu [ER 5.14.44].
- 4.163. Roedd RFFWF o'r farn bod y Ceisydd wedi methu â chydymffurfio ag NPS EN-3 [ER 5.14.45], tra bo'r Ceisydd yn dadlau nad oedd cyfeiriad yn NPS EN-3 at y rhyngweithio rhwng ffermydd gwynt ar y môr, ond yn hytrach at y rhyngweithio â mathau eraill o seilwaith alltraeth (e.e. ceblau telathrebu) neu weithgareddau (e.e. drilio) [ER 5.14.50]. Yn ychwanegol, Ystâd y Goron oedd yn rheoli'r pellteroedd priodol rhwng prosiectau trwy ei phroses brydlesu, a ystyriwyd gan y Ceisydd yn y bennod ar ddewis safle yn yr ES [ER 5.14.51]. Roedd y Ceisydd yn anghytuno'n sylfaenol â dehongliad RFFWF o NPS EN-3 mewn perthynas ag effeithiau sgil-golledion. [ER 5.14.52].
- 4.164. Derbyniodd yr ExA fod y Ceisydd wedi cydymffurfio â meini prawf Ystâd y Goron ynglŷn â lleoli datblygiadau ond daeth i'r casgliad bod NPS EN-3 yn gymwys i effeithiau fferm wynt ar y môr ar ffermydd gwynt eraill a bod RFFWF yn dod o fewn y diffiniad o seilwaith gweithredol presennol. Pe bai NPS EN-3 wedi bwriadu hepgor ffermydd gwynt presennol dywedodd yr ExA y byddai hynny wedi cael ei wneud yn glir [ER 5.14.75] [ER 5.14.78].
- 4.165. Nododd yr ExA fod y Ceisydd wedi cyfrifo'r sgil-golledion o 2% a ragwelir drwy ddefnyddio senario'r dyluniad mwyaf posibl ac felly y gallai'r colledion fod yn is, ac o'r herwydd, roedd yn fodlon â'r ffigur o 2% a gyflwynwyd [ER 5.14.79]. Cafodd amcangyfrif RFFWF ei lunio ar y sail y byddai'r ddwy fferm wynt yn gweithredu gyda'i gilydd am gyfnod o 5 mlynedd, oedd yn cyfateb i golled bosibl o hyd at 26,000 o oriau megawat (mWh) o ganlyniad i'r Datblygiad Arfaethedig [ER 5.14.68]. O'i fesur yn erbyn buddion ynni Awel y Môr, roedd y sgil-golledion o 2% ym marn yr ExA yn rhoi pwysau cymedrol yn erbyn y cynllun [ER 5.14.80]. Cytunodd yr ExA hefyd â barn RFFWF y dylid cynnal asesiad o effaith y sgil-golledion, fel y'i drafftwyd yn y rDCO, a fyddai'n sicrhau bod unrhyw effeithiau a nodwyd ar RFFWF yn cael eu lliniaru a'u lleihau gymaint â phosibl [ER 5.14.84] [ER 5.14.86].

³ Paragraff 2.6.179

Gofyniad 20: Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth

- 4.166. Nododd Cyngor Sir Ynys Môn nad oedd gofynion y dDCO yn cynnwys gofyniad i gymeradwyo strategaeth sgiliau a chyflogaeth [ER 5.14.88]. Yn ddiweddarach, cadarnhaodd y Ceisydd eu bod yn fodlon darparu hyn ac roedd wedi paratoi Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth amlinellol trwy R20 o'r dDCO [5.14.91]. Cafodd hyn ei ddiweddarau hefyd yn y Rhestr Mesurau Lliniaru a Monitro [ER 5.14.95].
- 4.167. Er hynny, gan na nodwyd unrhyw effeithiau gweddilliol niweidiol arwyddocaol mewn perthynas â chyflogaeth a sgiliau yn yr asesiad sosio-economaidd, dywedodd yr ExA, nad oeddent o'r farn y byddai angen R20 fel mesur lliniaru [ER 5.14.103], a bod perygl i R20 fynd yn groes i'r profion o'r angen i gyfeirio at gynllunio ac anghenraid fel y nodir yng Nghymru yn '*Defnyddio amodau cynllunio i reoli datblygu*' [ER 5.14.106]. Er hynny, argymhellodd yr ExA y dylid cadw R20 yn yr rDCO oherwydd parodwydd y Ceisydd i gynnig cynllun sy'n fanteisiol yn lleol a'r gefnogaeth i'r cynllun o du'r awdurdodau cynllunio, ond oherwydd cwestiwn cydymffurfio â phrofion, awgrymwyd y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol ddymuno ystyried hyn ymhellach [ER 5.14.111].

Cadwyn Gyflenwi

- 4.168. Dywedodd Cyngor Sir Ynys Môn fod angen rhoi gwybod i gwmnïau lleol am gyfleoedd posibl yn y gadwyn gyflenwi sydd ar gael drwy'r Datblygiad Arfaethedig gan wthio am ofyniad i Gynllun Gweithredu'r Gadwyn Gyflenwi amlinellol gael ei gymeradwyo [ER 5.14.113]. Roedd gan y Ceisydd bryder arwyddocaol am sicrhau hyn drwy'r DCO, oherwydd y risg o ddyblygu gofynion o dan y Cynllun Cadwyn Gyflenwi a oedd eisoes ar y gweill [ER 5.14.120]. Cytunodd yr ExA a chan nad oedd unrhyw effeithiau gweddilliol arwyddocaol wedi'u nodi mewn perthynas â chyflogaeth, daliai nad oedd angen i swyddi gael eu sicrhau drwy'r dDCO [ER 5.4.128]. Roedd yr ExA yn fodlon fel arall fod y Ceisydd wedi gweithio'n gadarnhaol gyda phartion perthnasol i gefnogi'r farchnad lafur a strategaethau twf y rhanbarth [ER 5.14.130].

Datganiad Ieithyddol Cymunedol

- 4.169. Ystyriodd Datganiad Ieithyddol Cymunedol y Ceisydd effaith bosibl y Datblygiad Arfaethedig ar yr iaith a'r diwylliant Cymraeg, a gweld na fyddai'n arwain at effeithiau negyddol [ER 5.14.134]. Er hynny, roedd Llywodraeth Cymru o'r farn nad oedd y Datganiad yn rhoi ystyriaeth ddigonol i 'natur a diddordeb ieithyddol yr ardal berthnasol' a bod angen mwy o ystyriaeth i anghenion a buddiannau'r Gymraeg o fewn y Datblygiad Arfaethedig. Gofynnodd Llywodraeth Cymru am asesiad effaith llawn i ystyried effeithiau ar fewnfudo, gwasanaethau lleol a mesurau lliniaru i gefnogi'r iaith. [ER 5.4.136].
- 4.170. Diweddarodd y Ceisydd y Datganiad a oedd yn cynnwys polisi Cymraeg arfaethedig, gyda'r nod o sicrhau nad chât'r iaith ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ac y dylai contractwyr/tenantiaid ac eraill ennill o leiaf Lefel 1 mewn sgiliau Cymraeg [ER 5.14.142]. Roedd yr ExA yn fodlon bod y Ceisydd wedi cymryd mesurau perthnasol i ddangos na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cael unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol ar y Gymraeg [ER 5.14.149].

Dewis Porthladd

- 4.171. Roedd yr ExA yn fodlon â'r dull a fabwysiadwyd gan y Ceisydd ynghylch dewis porthladd a nododd fod natur prosiectau o'r fath yn golygu na fyddai'n debygol o gael ei setlo'n fanwl gywir erbyn y cais am gydsyniad datblygu [ER 5.14.153] [5.14.156].

Daliad Tir Faenol Brodor

- 4.172. Byddai'r OnSS arfaethedig ar Faenol Brodor yn arwain at golli tir yn barhaol, a arweiniodd at bryder arwyddocaol o du'r tîrfeddianwyr a fynegodd y byddai hyn yn achosi effaith ddinistriol i'w huned amaethyddol a'u da byw gyda 54% o'r tir yn cael ei gaffael gan y Ceisydd [ER 5.14.161]. Roedd yr ExA yn fodlon bod gan y Ceisydd reswm da dros gymryd y tir angenrheidiol ond gan y byddai angen 54% yn y tymor hir, anghytunodd yr ExA â barn y Ceisydd na fyddai'r tîrfeddianwyr yn gweld effeithiau andwyol arwyddocaol [ER 5.14.165]. Am y rheswm hwn, roedd yr ExA o'r farn y byddai effaith andwyol gymedrol arwyddocaol yn cael ei phrofi gan y tîrfeddianwyr. Mae'r ExA hefyd o'r farn bod dull y Ceisydd o ddefnyddio cod iawndal os nad yw mesurau lliniaru'n bosibl yn briodol [ER 5.14.166].

Partneriaeth Cwybr Fawr

- 4.173. O ran daliad tir Partneriaeth Cwybr Fawr, codwyd pryder mewn perthynas â thynnu tir a'r amser y byddai'n ei gymryd i ddychwelyd i gynhyrchiant llawn [ER 5.14.168].
- 4.174. Roedd y tîrfeddianwyr o'r farn y byddai gosod yr ECC yn creu effaith arwyddocaol ar agweddau o'r busnes a goblygiadau ariannol a gofynnwyd i'r cebl allforio arfaethedig gael ei osod drwy ddrilio'n uniongyrchol yn hytrach na defnyddio ffosydd agored [ER 5.14.170]. Mae'r ExA yn derbyn y byddai rhywfaint o darfu ar y gweithrediadau masnachol wrth adeiladu'r ECC. Er hynny, mae'r ExA o'r farn mai byrdymor a thros dro fyddai'r tarfu hwn o ran ei natur [ER 5.14.177].
- 4.175. Er nad yw hyn yn cael ei sicrhau drwy'r dDCO, roedd yr ExA yn fodlon bod y Ceisydd wedi ymrwymo i drafodaethau pellach mewn perthynas â nodi mesurau posibl i sicrhau hyfywedd parhaus y gweithgareddau masnachol ym Mhartneriaeth Cwybr Fawr yn ystod y cyfnod adeiladu [ER 5.14.178]. Mae'r ExA o'r farn bod dull y Ceisydd o ddefnyddio cod iawndal os nad yw mesurau lliniaru'n bosibl yn briodol [ER 5.14.180].

Casgliadau'r Ysgrifennydd Gwladol

- 4.176. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r ExA bod y Ceisydd wedi cynnal asesiad priodol o ffactorau sosio-economaidd ac wedi asesu effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig yn ddigonol.
- 4.177. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried cwestiwn effeithiau sgil-golledion ac mae'n cytuno â barn yr ExA y dylid cynnal asesiad o effaith y sgil-golledion, fel y'i drafftwyd yn yr rDCO, i sicrhau bod yr effeithiau a nodwyd ar RFWF yn cael eu lliniaru a'u lleihau. Gan hynny, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon gweld hyn yn cael ei gynnwys yn y DCO.
- 4.178. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod R20 o'r DCO yn nodi na chaiff unrhyw gam o'r datblygiad ddechrau nes bod strategaeth sgiliau a chyflogaeth wedi'i chyflwyno

ac wedi'i chymeradwyo gan CSD, er gwaethaf y pryderon a godwyd gan yr ExA ei bod yn bosibl na fydd gofyniad o'r fath yn bodloni'r chwe phrawf cynllunio (yn enwedig angen). Er hynny, gan fod yna gynsail ar gyfer gofynion o'r fath, gan fod yr awdurdodau lleol yn hapus i'w dderbyn a chan fod y Ceisydd wedi cynnig hyn, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn barod i dderbyn geiriad presennol y DCO.

- 4.179. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â barn yr ExA ar fanteision ac anfanteision y Datblygiad Arfaethedig ac yn rhoi pwysau cymedrol o blaid gwneud y Gorchymyn i faterion sy'n ymwneud a sosio-economeg. [ER 5.14.187].

Twristiaeth a Hamdden

- 4.180. Gan fod ffermydd gwynt alltraeth yn meddiannu ardal o'r môr mae NPS EN-3 yn nodi ei bod yn anochel y bydd rhywfaint o effaith ar fordwyo i ddefnyddwyr hamdden a masnachol y môr a allai gael eu heffeithio gan aflonyddwch, a bod rhaid i golledion economaidd gael eu hystyried [ER 5.15.9].
- 4.181. Nododd yr ES effeithiau andwyol dibwys i fân yn ystod y cyfnod adeiladu nad oeddent yn arwyddocaol yn nhermau EIA [ER 5.15.20]. Yr eithriad oedd yr effaith negyddol ar nifer yr ymwelwyr gydag effeithiau ar Landudno a'r Gogarth yn cael eu nodi fel rhai andwyol cymedrol, er y dywedwyd mai peth byrdymor fyddai hyn (hyd at 2 flynedd) [ER 5.15.21] [ER 5.15.23].
- 4.182. O ran gweithredu, nododd yr ES effeithiau andwyol dibwys i fân ar gyfer y derbynyddion lleol, ac na fyddai hyn yn cynyddu i effeithiau andwyol cymedrol oni bai bod angen gwaith trwsio. Nododd yr ExA y byddai hyn yn annhebygol iawn [ER 5.15.25].
- 4.183. O ran datgomisiynu a lliniaru, roedd yr asesiad yn cymryd yn ganiataol, ar ddiwedd oes weithredol y Datblygiad Arfaethedig, y byddai'r holl seilwaith yn cael ei dynnu'n llwyr. Roedd effeithiau gweithgareddau datgomisiynu yn debygol o fod yn debyg i'r effeithiau a nodwyd yn ystod y cyfnod adeiladu, ond heb fod yn waeth [ER 5.5.35].
- 4.184. Nododd yr ExA bryder CBSC ynghylch nodweddion sylfaenol a'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i bennu amgylchedd sylfaenol gan y Ceisydd sy'n berthnasol i dwristiaeth a hamdden mor gywir â phosibl. Er hynny, oherwydd pandemig Covid-19, cydnabuwyd bod angen gwneud sawl rhagdybiaeth er mwyn dod o hyd i waelodlin [ER 5.15.47]. Roedd yr ExA yn fodlon bod y Ceisydd yn wynebu amgylchiadau eithriadol oherwydd y pandemig a'i fod wedi nodi'n glir ac wedi esbonio'r cyfyngiadau ynglŷn â phennu'r nodweddion sylfaenol [ER 5.15.120].
- 4.185. Derbyniodd yr ExA y gallai rhywfaint o niwed ddigwydd i sector twristiaeth y Gogarth a Llandudno ar ddiwedd y cyfnod adeiladu ac yn ystod y cyfnod gweithredu cynnar. Er hynny, gan nodi pwysigrwydd yr economi twristiaeth yn y fan yma, byddai niwed o'r fath yn cael ei leihau'n sylweddol unwaith y byddai'r cyfnod gweithredol cynnar wedi'i gwblhau a byddai'n arwain at effaith niwtral hirdymor ar yr economi twristiaeth [ER 5.15.121]. Hefyd, roedd yr ExA yn fodlon bod y Ceisydd wedi cynnal yr asesiad mewn ffordd ragofalus, a amlygwyd trwy ddefnyddio'r senario 'achos gwaethaf' yn Senario'r Dyluniad Gorau Posibl er mwyn lliniaru ansicrwydd [ER 5.15.63].

4.186. I helpu'r effaith negyddol fyrdymor bosibl ar economi dwristiaeth ardal y Gogarth a Llandudno, trafododd y Ceisydd a CBSC gronfa dwristiaeth a fyddai'n ffurfio cytundeb masnachol ac sydd felly y tu allan i faes yr Archwiliad ac ni allai'r ExA roi unrhyw bwysau iddo [ER 5.15.126].

Casgliadau'r ExA

4.187. Roedd yr ExA yn fodlon bod y Ceisydd wedi nodi effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar dwristiaeth a hamdden yn briodol, y byddai'n cyd-fynd â'r gofynion polisi perthnasol, ac y byddai'r mesurau lliniaru ar gyfer yr effeithiau andwyol ar dwristiaeth yn cael eu sicrhau'n ddigonol drwy'r dDCO [ER 5.5.123]. Rhoddodd yr ExA bwysau cyfyngedig yn erbyn gwneud y Gorchymyn i faterion sy'n ymwneud â'r pwnc hwn [ER 5.15.131]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno.

Traffig a Thrafnidiaeth

4.188. Gwerthusodd ES y Ceisydd effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar draffig a thrafnidiaeth yn sgil yr adeiladu, y gweithredu (gan gynnwys cynnal a chadw) a'r datgomisiynu [ER 5.16.2].

4.189. Mae NPS EN-1 yn dweud y gall cludo deunyddiau a nwyddau yn ôl ac ymlaen i ddatblygiad achosi ystod o effeithiau ar y seilwaith trafndiaeth cyfagos yn ystod pob cam o'r prosiect, y dylai'r penderfynwr sicrhau bod y Ceisydd wedi ceisio lliniaru'r effeithiau, ac os yw prosiect yn debygol o gael effeithiau arwyddocaol ar drafnidiaeth, y dylai ES y Ceisydd gynnwys Asesiad Trafnidiaeth [ER 5.16.4] [5.16.5]

4.190. Mae NPS EN-3 yn dweud y gallai i ba raddau y mae effeithiau generig a nodir yn NPS EN-1 yn berthnasol, ddibynnu ar ba gam yn y datblygiad arfaethedig sy'n cael ei ystyried [ER 5.16.7].

4.191. Daeth asesiad y Ceisydd o effeithiau posibl ar draffig a thrafnidiaeth yn ystod y gwaith adeiladu i'r casgliad bod yr holl faterion a nodwyd, a fesurwyd yn erbyn mesurau lliniaru perthnasol, yn cynnwys effeithiau gweddilliol '*anarwyddocaol*'.⁴ Ni fernid bod y gweithgareddau datgomisiynu yn torri'r meini prawf a aseswyd ar gyfer yr achos gwaethaf yn y cyfnod adeiladu [ER 5.16.32] ac ni fyddai unrhyw effeithiau trawsffiniol na chronnol o'r Datblygiad Arfaethedig [ER 5.16.36] [ER 5.16.39].

4.192. O'r 60 o argymhellion a gafwyd, cyfeiriodd 12 at draffig a chludiant yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu [ER 5.16.41].

Defnyddio Ffordd Glascoed ar gyfer Traffig Adeiladu

4.193. Roedd Genesis Town Planning yn amau addasrwydd Ffordd Glascoed, y B5381, ar gyfer traffig adeiladu yn cyrraedd safle'r OnSS ac awgrymodd lwybr arall [ER 5.16.34]. Mewn ymateb i gwestiynau'r ExA ynghylch dewis llwybr y Ceisydd, amlinellodd y Ceisydd y broses o asesu'r pedwar llwybr posibl [ER 5.16.57]. Daeth yr ExA i'r casgliad bod asesiad y Ceisydd wedi mynd i'r afael â'r mater ac wedi darparu llwybr addas i safle'r OnSS [ER 5.16.62].

⁴ Tabl 12, tudalen 327

Llwybr Mynediad Cynnal a Chadw ger Amlogfa a Pharc Coffa Sir Ddinbych

- 4.194. Mewn ymateb i bryder a godwyd gan Genesis Town Planning y byddai lleoliad arfaethedig ffordd fynediad cynnal a chadw ger yr amlogfa yn achosi sŵn ac aflonyddwch posibl, eglurodd y Ceisydd y byddai'r llwybr yn cael ei ddefnyddio unwaith neu ddwy y flwyddyn yn unig a daliai'r ExA na fyddai hynny felly yn achosi unrhyw effeithiau andwyol arwyddocaol. [ER 5.16.63] [ER 5.16.64] [ER 5.16.65].

Traffig Adeiladu yn Achosi Tagfeydd ar yr A525

- 4.195. Nododd yr ExA fod y Ceisydd wedi ymateb i Sylwadau Perthnasol ynghylch traffig adeiladu, ac nad oedd unrhyw ymatebion na sylwadau pellach wedi'u gwneud ar y mater na'r asesiad [ER 5.16.67]. Roedd yr ExA yn fodlon bod asesiad y Ceisydd yn dangos y byddai unrhyw effaith andwyol yn fach, ac na fyddai unrhyw effaith ddilynol yn arwyddocaol [ER 5.16.68].

Traffig ychwanegol yn defnyddio Dyserth Road

- 4.196. Nododd yr ExA fod y Ceisydd wedi ymateb i Sylwadau Perthnasol ynghylch traffig ac oedi posibl, ac nad oedd unrhyw ymatebion na sylwadau pellach wedi'u gwneud ar y mater nac ar eu hasesiad [ER 5.16.71]. Roedd yr ExA yn fodlon bod asesiad y Ceisydd yn dangos y byddai unrhyw effaith andwyol yn fach, ac na fyddai unrhyw effaith ganlyniadol yn arwyddocaol [ER 5.16.72].

Gwaith Stryd a Pwerau i Gau Hawliau Tramwy Cyhoeddus

- 4.197. Er nad oedd CSD yn fodlon yn wreiddiol â'r pwerau gwaith stryd a'r pwerau hawliau tramwy cyhoeddus a oedd i'w harfer gan y Ceisydd, nododd yr ExA drafodaethau diweddarach rhwng y Ceisydd a CSD a bod y Datganiad terfynol o Dir Cyffredin yn dangos bod y Cyngor wedi cytuno ar bob mater o ran traffig a thrafnidiaeth [ER 6.16.74]. Roedd yr ExA yn fodlon â'r sefyllfa hon [ER 5.16.75].

Porthladd ar gyfer Traffig Adeiladu

- 4.198. Er nad yw'r Ceisydd wedi cadarnhau porthladd ar gyfer danfon trawsnewidyddion is-orsaf a chhydrannau mawr eraill neu ar gyfer gwaith alltraeth, nododd yr ExA y byddai'r Adroddiad Asesu Llwythi Annormal fel rhan o'r Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CTMP), a gâi ei baratoi ar ôl i gydsyniad gael ei roi, yn cadarnhau'r porthladd. Roedd yr ExA yn fodlon bod modd lliniaru unrhyw effeithiau andwyol ar ôl dewis y porthladd yn effeithiol drwy gyfrwng mesurau yn y CTMP terfynol. [ER 5.16.78].

Casgliadau'r ExA

- 4.199. Roedd yr ExA yn fodlon bod y Ceisydd wedi asesu'n llawn yr effeithiau ar draffig a thrafnidiaeth sy'n gysylltiedig â phob cam o'r Datblygiad Arfaethedig, yn unol â'r gofynion polisi perthnasol a mesurau lliniaru priodol [ER 5.16.81]. Mae'r ExA yn rhoi pwysau cyfyngedig yn erbyn gwneud y Gorchymyn [ER 5.16.83].
- 4.200. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod y Ceisydd wedi asesu'r effeithiau posibl yn ddigonol ac mae'n dod i'r casgliad nad yw materion traffig a thrafnidiaeth yn pwysu yn erbyn gwneud y Gorchymyn.

Gwybodaeth Amgylcheddol ar ôl yr Archwiliad

4.201. Ar 11 Gorffennaf 2023, darparodd y Ceisydd asesiad wedi'i ddiweddarau o'r effeithiau ar y cyd a oedd yn cynnwys gwybodaeth amgylcheddol wedi'i diweddarau ar gyfer prosiectau fferm wynt alltraeth Morgan, Mona a Morecambe.⁵ O ran y pynciau a ganlyn, daeth y cyflwyniad ôl-archwiliad i'r casgliad nad oedd effaith arwyddocaol i'r Prosiect ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill a bod casgliadau'r ES gwreiddiol yn dal yn ddilys:

- Daeareg forol, eigioneg a phrosesau ffisegol
- Ansawdd dŵr a gwaddod morol
- Adareg alltraeth
- Ecoleg islanwol a rhynglanwol benthig
- Ecoleg pysgod a physgod cregyn
- Pysgodfeydd masnachol
- Llongau a mordwyo
- Archaeoleg alltraeth
- Defnyddwyr a gweithgareddau morol eraill
- Hedfan milwrol a sifil
- Sosio-economeg
- Twristiaeth a hamdden
- Bioamrywiaeth a chadwraeth natur
- Amodau'r tir a defnydd tir
- Hydroleg, hydrodaeareg a pherygl llifogydd
- Archaeoleg ar y tir a threftadaeth ddiwylliannol
- Traffig a thrafnidiaeth
- Sŵn a dirgrynu
- Ansawdd aer; ac
- Iechyd y cyhoedd

4.202. Yn unol â chasgliad yr ES gwreiddiol, daeth y Ceisydd i'r casgliad y byddai effaith gronol arwyddocaol ar gyfer y pynciau canlynol:

- Asesiad morlun, tirwedd ac effaith weledol; ac
- Asesiad o'r dirwedd a'r effaith weledol

4.203. O ran mamaliaid morol, nododd asesiad diwygiedig y Ceisydd nad yw'n bosibl diystyru'r potensial ar gyfer effeithiau cronol arwyddocaol ar y dolffin trwynbwl, y llamhidydd harbwr neu'r morlo harbwr. Er hynny, ar sail ymrwymadau Mona, Morgan, a Morecambe i ddarparu asesiad pellach o'r effeithiau hyn yn ystod cyfnod yr ES (gan gynnwys ystyried lliniaru pellach), disgwylir y bydd mesurau yn cael eu darparu i sicrhau nad yw effeithiau cyfunol/cronol arwyddocaol yn codi. Ar y sail hon, nododd y Ceisydd fod ei gasgliad na cheid effaith arwyddocaol ar famaliaid morol yn dal heb newid.

⁵<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN010112/EN010112-001779-Combined%20Post%20Examination%20Submissions.pdf>

Ymatebion yr Ymgynghoreion

- 4.204. Cyflwynodd y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) ymateb ymgynghori (dyddiedig 30 Awst 2023) mewn perthynas â'r Adolygiad o Effeithiau Cronnol a Chyfunol a gyflwynwyd ar ôl yr Archwiliad (dyddiedig 11 Gorffennaf 2023).
- 4.205. O ran AGA Bae Lerpwl, nododd y JNCC fod angen mwy o eglurder ynghylch sut y daethpwyd i'r casgliadau ar yr effeithiau cyfunol, yn benodol mewn perthynas ag adareg alltraeth. Nododd y JNCC hefyd fod yr asesiad cyfunol ar gyfer fferm wynt alltraeth Morecambe yn seiliedig ar 12 mis o ddata o arolygon, nad oedd yn ddigon i'r JNCC ddarparu cyngor pellach ar effeithiau cyfunol posibl ar gyfer AGA Bae Lerpwl ar hyn o bryd.
- 4.206. O ran ACA Morol Gogledd Môn, cytunodd y JNCC fod effeithiau cronol ar famaliaid morol o ffermydd gwynt alltraeth Mona, Morgan neu Morecambe yn bosibl oherwydd yr amserlenni adeiladu sy'n gorgyffwrdd. Sŵn tanddwr a gweithgaredd cychod yw'r effeithiau cronol mwyaf tebygol. Gan hynny, dywedodd y JNCC nad oedd yn bosibl diystyru'r potensial ar gyfer effeithiau cronol arwyddocaol mewn perthynas ag Amcan Cadwraeth 2, dim tarfu ar lamhidyddion harbwr. Cydnabuwyd bod dull rheoli sŵn ar waith i reoli aflonyddwch a bod ffermydd gwynt alltraeth Mona, Morgan, a Morecambe wedi ymrwymo i gynnal asesiadau pellach o effeithiau yn eu priod geisiadau nhw. Er hynny, er mwyn sicrhau nad oes AEol cyfunol ar ACA Morol Gogledd Môn, nododd y JNCC fod rhaid sicrhau mesurau lliniaru a rheoli fel amodau yn y cydsyniadau perthnasol. At hynny, roedd y JNCC o'r farn y dylid adolygu'r angen am Gynllun Cyflawnder Safle (SIP) ar gyfer yr effeithiau cyfunol posibl ar famaliaid morol.
- 4.207. Cyflwynodd Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) Gogledd Iwerddon ymateb ymgynghori (dyddiedig 31 Awst 2023) mewn perthynas â'r Adolygiad o'r Effeithiau Cronnol a Chyfunol a gyflwynwyd ar ôl yr Archwiliad (dyddiedig 11 Gorffennaf 2023). Nododd DAERA bryder am yr effaith ar Forloi Harbwr yn ACA Llyn Strangford a llamhidyddion harbwr yn ACA Sianel y Gogledd, er eu bod yn croesawu ystyriaeth bellach ar yr effeithiau ar y nodweddion hyn yn y dyfodol. Nododd DAERA hefyd y risg bosibl o gyflwyno/lledaenu rhywogaethau estron goresgynnol morol. Gan hynny, argymhellodd DAERA fod mesurau bioddiogelwch/mesurau lliniaru yn cael eu sefydlu.
- 4.208. Cyflwynodd CNC ymateb i'r ymgynghoriad (dyddiedig 29 Awst 2023) mewn perthynas â'r Adolygiad o'r Effeithiau Cronnol a Chyfunol a gyflwynwyd ar ôl yr Archwiliad (dyddiedig 11 Gorffennaf 2023).
- 4.209. Nododd CNC ei bod yn rhesymol disgwyl i ystyriaeth bellach i'r effeithiau cronol posibl gael ei rhoi gan ffermydd gwynt alltraeth Mona, Morgan, a Morecambe yn ystod cyfnod yr ES, gan ymgorffori unrhyw fireinio ar y prosiect a gwaith lliniaru neu wella pellach a allai fod yn angenrheidiol. Dywedodd CNC eu bod mewn trafodaethau parhaus gyda cheiswyr ffermydd gwynt alltraeth Mona, Morgan a Morecambe i fireinio'u ceisiadau ar gyfer cynigion datblygu cyn cyflwyno cyflwyniadau ffurfiol i'r Arolygiaeth Gynllunio. At hynny, nododd CNC mai eu barn nhw oedd y dylai ffermydd gwynt alltraeth Mona, Morgan a Morecambe ystyried effeithiau cronol Awel y Môr yn llawn fel rhan o'u harchwiliadau nhw.

- 4.210. O ran mamaliaid morol, cytunodd CNC nad oedd yn bosibl dweud na cheid effeithiau arwyddocaol tebygol cronol ychwanegol. Er hynny, yn amodol ar gyflawni'r mesurau lliniaru, roedd CNC yn fodlon bod modd dweud na cheid effaith andwyol ar gyflawnder yr ACAau mamaliaid morol o du Awel y Môr ar y cyd â phrosiectau eraill. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliadau'r ExA ac CNC, ac yn nodi mai yn ystod proses yr ML y byddai'r fwyaf priodol trin y mesurau lliniaru. Gan hynny, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn argymhell y dylai CNC ystyried sut mae'r rhain yn cael eu rhoi ar waith gan y Ceisydd drwy broses y drwydded forol.
- 4.211. Ar fater ecoleg pysgod a physgod cregyn, anghytunodd CNC â chasgliad yr asesiad effeithiau cronol wedi'i ddiweddarau na fydd unrhyw effeithiau arwyddocaol cronol ychwanegol a bod yr holl effeithiau yn dal yn effeithiau mân. Dywedodd CNC y byddai yna effeithiau tebygol o sŵn tanddwr ar bysgod naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â phrosiectau eraill sydd wedi'u cynllunio ym Mae Lerpwl. Gan hynny, ni allai CNC ddweud na cheid effeithiau arwyddocaol o ffermydd gwynt alltraeth Mona a Morgan ar eu pen eu hunain nac yn gronol. Dywedodd CNC y dylai'r asesiadau ar gyfer ceisiadau ffermydd gwynt alltraeth Mona, Morgan a Morecambe ystyried effeithiau cronol gydag Awel y Môr ar ecoleg pysgod a physgod cregyn fel rhan o'u harchwiliadau sydd yn yr arfaeth.
- 4.212. O ran tirweddau dynodedig, roedd CNC o'r farn bod yna danamcangyfrif wedi bod o rai o'r effeithiau ar y morlun, y dirwedd ac effeithiau gweledol. Mae CNC yn cytuno bod effeithiau cronol arwyddocaol posibl yn debygol gyda phrosiect fferm wynt alltraeth Mona ar dderbynyddion yn AHNE Ynys Môn. Er hynny, nododd CNC y byddai effeithiau arwyddocaol posibl hefyd ar dderbynyddion ym Mharc Cenedlaethol Eryri ac ar forluniau. Cytunodd CNC na fydd effeithiau cronol arwyddocaol posibl yn debygol o godi gyda phrosiectau ffermydd gwynt alltraeth Morgan a Morecambe o gofio'u pellter o'r tirweddau dynodedig. At hynny, nododd CNC y potensial i lanfa Mona a'i choridor ceblau gael effeithiau arwyddocaol posibl oherwydd ei faint a'i agosrwydd agosach at AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy nag is-orsaf Awel y Môr. Mae gan effaith gronol y ddwy is-orsaf y potensial i fod yn arwyddocaol. Dywedodd CNC y dylid lleihau'r effeithiau andwyol gymaint â phosibl, ac y dylid cynllunio deunyddiau a lliwiau'r adeiladau a'r seilwaith arfaethedig i leihau effeithiau gweledol.
- 4.213. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cydnabod bod cyflwyniad hwyr y Ceisydd wedi dod i law ar 8 Medi 2023 mewn ymateb i lythyr ymgynghori'r Ysgrifennydd Gwladol. Yn unol â Rheol 10, Rheol 17 a Rheol 19 o Reolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Arholi) 2010, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi ei bod yn rhesymol anwybyddu *'any written representations, responses to questions or further information received after the date, or the expiry of the period, specified for their receipt.'* Ar ôl ystyried cynnwys y sylwadau, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon nad yw'r diweddiariad yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'r casgliadau cyffredinol.
- 4.214. Wedi pwyso a mesur y materion hyn, mae'r Ysgrifennydd yn fodlon nad yw'r pryderon yn newid casgliadau'r ES gwreiddiol.

Ystyriaethau Eraill

Ystyriaethau Polisi

4.215. Mae NPS EN-1 yn amlygu rôl polisi'r llywodraeth ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus o ran diogelu iechyd pobl a'r amgylchedd trwy gynhyrchu llai o wastraff a'i ddefnyddio fel adnodd lle bo modd, mae'n nodi dull hierarchaeth gwastraff o reoli gwastraff, ac mae'n nodi y dylai'r Ceisydd nodi'r trefniadau a gynigir mewn Cynllun Rheoli Gwastraff Safle [ER 5.17.2] [ER 5.17.3] [ER 5.17.4].

Y cais arfaethedig

4.216. Nododd yr ExA na chyflwynodd y Ceisydd bennod benodol ar wastraff ac adnoddau deunyddiau fel rhan o'i ES, ond fe gafodd Cod Ymarfer Adeiladu amlinellol ei gyflwyno, a hwnnw'n canolbwyntio ar faterion gwastraff, gyda rhagor o fanylion yn y Cynllun Rheoli Gwastraff Safle amlinellol (oSWMP) a'r ddau wedi'u sicrhau drwy gyfrwng Gofyniad (R)10 yn y dDCO [ER 5.17.7] [ER 5.17.8].

4.217. Cadarnhaodd y Ceisydd y byddai polisiâu rheoli gwastraff yn cael eu sicrhau drwy'r ML, mewn perthynas â'r amgylchedd ar y môr, ac y byddai CNC yn cytuno arnynt cyn unrhyw waith ar y môr.

4.218. Gofynnodd yr ExA am eglurder ynghylch gallu'r Datblygiad Arfaethedig i dderbyn gwastraff confensiynol a pheryglus a gynhyrchid ganddo. Yn dilyn rhagor o wybodaeth, daeth yr ExA i'r casgliad bod y Ceisydd wedi dangos bod digon o gapasiti ar gael yn y Gogledd i reoli gwastraff o'r Datblygiad Arfaethedig [ER 5.17.18].

4.219. Gofynnodd yr ExA i CNC gadarnhau a oeddent yn fodlon ar yr oSWMP. Mewn ymateb, cadarnhaodd CNC eu bod yn cytuno â'r dull arfaethedig fel y'i hamlinellwyd yn yr oSWMP a'u bod yn fodlon y byddai gwastraff ar y tir yn cael ei reoli'n briodol [ER 5.17.21].

4.220. Daeth yr ExA i'r casgliad y byddai materion lliniaru mewn perthynas â rheoli gwastraff a deunyddiau yn cael eu darparu'n ddigonol ac yn cael eu sicrhau'n briodol drwy'r dDCO. Byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn bodloni'r holl ofynion mewn deddfwriaeth a pholisi sy'n ymwneud â rheoli gwastraff.

4.221. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r ExA ac mae'n fodlon nad oes unrhyw faterion yn ymwneud â gwastraff a rheoli deunyddiau sy'n pwysu o blaid neu yn erbyn gwneud y Gorchymyn.

5. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

5.1. Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o gasgliadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA). I gael rhagor o fanylion am yr asesiad hwn, gweler adroddiad HRA Awel y Môr.

5.2. Yn y Deyrnas Unedig, mae Rheoliadau Cadw Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 wedi trosi'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac Adar yn gyfraith genedlaethol cyn belled â therfyn 12nm y dyfroedd tiriogaethol. Y tu hwnt i'r dyfroedd tiriogaethol, mae Rheoliadau Cadw Cynefinoedd a Rhywogaethau Môr Alltraeth 2017 yn ateb yr un diben ar gyfer ardal forol alltraeth

y Deyrnas Unedig. Yn y llythyr hwn, cyfeirir at y ddwy set o reoliadau gyda'i gilydd fel y 'Rheoliadau Cynefinoedd'. Nod y Rheoliadau Cynefinoedd yw sicrhau cadwraeth hirdymor rhai rhywogaethau a chynefinoedd penodol trwy eu hamddiffyn rhag effeithiau niweidiol posibl cynlluniau a phrosiectau.

- 5.3. Yn dilyn ymadawriad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd, mae'r rheoliadau domestig hyn yn dal yn gymwys. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod y Cais yn cynnwys ardaloedd o fewn y terfyn 12nm a'r tu allan iddo, felly mae'r ddwy set o Reoliadau Cynefinoedd yn gymwys.
- 5.4. Mae'r Rheoliadau Cynefinoedd yn darparu ar gyfer dynodi safleoedd er mwyn amddiffyn cynefinoedd a rhywogaethau o bwysigrwydd rhyngwladol. Yr enw ar y safleoedd hyn yw Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA). Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer dosbarthu safleoedd ar gyfer amddiffyn adar prin a bregus a rhywogaethau mudol sy'n digwydd yn rheolaidd yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Yr enw ar y safleoedd hyn yw Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA). Mae ACA ac AGA gyda'i gilydd yn ffurfio rhan o Rwydwaith Safleoedd Cenedlaethol y Deyrnas Unedig.
- 5.5. Mae'r Confensiwn ar Wlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol 1972 ("Confensiwn Ramsar") yn darparu ar gyfer rhestru gwlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol. Yr enw ar y safleoedd hyn yw safleoedd Ramsar. Polisi'r Llywodraeth yw rhoi yr un amddiffyniad i safleoedd Ramsar yn y Deyrnas Unedig â safleoedd o fewn y Rhwydwaith Safle Cenedlaethol (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel "safleoedd gwarchoddedig").
- 5.6. Mae rheoliad 63 o Reoliadau Cadw Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 yn darparu: *"...before deciding to undertake, or give any consent, permission or other authorisation for, a plan or project which (a) is likely to have a significant effect on a European site or a European offshore marine site (either alone or in-combination with other plans or projects), and (b) is not directly connected with or necessary to the management of that site, [the competent authority] must make an appropriate assessment of the implications for that site in view of that site's conservation objectives."*
- 5.7. A hefyd: *"In the light of the conclusions of the assessment, and subject to regulation 64 (considerations of overriding public interest), the competent authority may agree to the plan or project only after having ascertained that it will not adversely affect the integrity of the European site or the European offshore marine site (as the case may be)."*
- 5.8. Mae Rheoliad 28 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017 yn cynnwys darpariaethau tebyg: *"Before deciding to undertake, or give any consent, permission or other authorisation for, a relevant plan or project, a competent authority must make an appropriate assessment of the implications of the plan or project for the site in view of that site's conservation objectives."*
- 5.9. A hefyd: *"In the light of the conclusions of the assessment, and subject to regulation 29 (considerations of overriding public interest), the competent authority may agree to the plan or project only if it has ascertained that it will not adversely affect the*

integrity of the European offshore marine site or European site (as the case may be)."

- 5.10. Pan fo'r prosiect yn creu effaith arwyddocaol debygol (LSE) ar unrhyw safle o'r fath, ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau a phrosiectau eraill, mae'r Rheoliadau Cynefinoedd yn ei gwneud yn ofynnol bod asesiad priodol (AA) yn cael ei gynnal i benderfynu a fydd y prosiect yn cael effaith andwyol ar gyflawnder (AEol) y safle o gofio amcanion cadwraeth y safle hwnnw. Pan na ellir dweud na fydd yna effaith andwyol ar gyflawnder y safle, rhaid troi at y profion rhanddirymiad.
- 5.11. Mae HRA yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r llythyr hwn. Rhaid darllen y paragraffau canlynol, sy'n darparu casgliadau, ochr yn ochr â'r HRA, sef y datganiad llawn o ystyriaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ar y materion hyn.
- 5.12. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried yn ofalus yr wybodaeth a gyflwynwyd cyn ac yn ystod yr Archwiliad, gan gynnwys yr Adroddiad i Lywio'r Asesiad Priodol (RIAS), y Datganiad Amgylcheddol, sylwadau a wnaed gan Bartion â Buddiant, ymatebion i'r ymgynghoriad ac Adroddiad yr ExA ei hun. Mae hi hefyd wedi ystyried rhagor o wybodaeth amgylcheddol a gyflwynwyd ar ôl yr Archwiliad a'r ymatebion ymgynghori i'r wybodaeth hon. Mae hi o'r farn bod gan y Datblygiad Arfaethedig y potensial i gael LSE ar 36 o safleoedd y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol pan gaiff ei ystyried ar ei ben ei hun ac ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill.
- 5.13. O ran ACA Morol Gogledd Môn, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod y JNCC wedi dweud nad oedd yn bosibl dweud nad oes potensial ar gyfer effeithiau cronol arwyddocaol o ran Amcan Cadwraeth 2, sy'n gofyn am beidio â tharfu ar lamhidyddion harbwr. Er mwyn sicrhau nad oes AEol cyfunol ar yr ACA hon yn digwydd, mae'r JNCC yn dweud bod rhaid sicrhau mesurau lliniaru a rheoli fel amodau yn y cydsyniadau perthnasol. At hynny, dylid adolygu'r angen am Gynllun Cyflawnder Safle (SIP) ar gyfer yr effeithiau cyfunol ar famaliaid morol.
- 5.14. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn nodi pryderon DAERA ynghylch nodwedd y llamhidyddion harbwr yn ACA Sianel y Gogledd, a'r risg bosibl o gyflwyno/lledaenu rhywogaethau estron goresgynnol morol. Argymhellodd DAERA y dylai mesurau bioddiogelwch/mesurau lliniaru gael eu sefydlu.
- 5.15. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'i chysuro gan ddatganiad CNC eu bod mewn trafodaethau gyda cheiswyr ffermydd gwynt alltraeth Mona, Morgan a Morecambe i fireinio'u cynigion datblygu nhw a barn CNC y dylai'r prosiectau hyn ystyried yn llawn yr effeithiau cronol gydag Awel y Môr fel rhan o'u hasesiadau; a bod CNC yn fodlon, yn amodol ar gyflawni'r mesurau lliniaru, bod modd dweud na cheid effaith andwyol ar gyflawnder ACA mamaliaid morol o du'r Prosiect ar y cyd â phrosiectau eraill.
- 5.16. O ran nodwedd trochydd gyddfgoch ACA Bae Lerpwl, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi pryderon y JNCC ynghylch y diffyg eglurder ar sut y daethpwyd i'r casgliadau cyfun; a bod yr wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer yr asesiad cyfunol gyda phrosiect fferm wynt alltraeth Morecambe yn seiliedig ar ddata annigonol o arolygon. Er hynny, mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn nodi barn CNC, o ran cynnwys prosiectau fferm wynt Mona, Morgan a Morecambe yn yr asesiad cyfunol, eu bod yn cytuno â chasgliad y Ceisydd nad oes yna LSE, gan ddweud mai mater

i'r brosiectau hynny fydd ystyried yr effeithiau ar y cyd ag Awel y Môr fel rhan o'u hasesiadau nhw. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn nodi bod yr asesiad cyfunol hwnnw wedi'i seilio ar wybodaeth ddylunio ragarweiniol ac y bydd yn ofynnol i brosiectau yn y dyfodol gynnal asesiadau pellach a darparu mesurau lliniaru i sicrhau nad oes AEol pan fyddant yn cyflwyno eu ceisiadau am DCO.

- 5.17. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ymgymryd ag AA mewn perthynas ag amcanion cadwraeth safleoedd gwarchoddedig i benderfynu a fydd y Datblygiad Arfaethedig, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, yn arwain at AEol i unrhyw safleoedd gwarchoddedig y ceir LSE ar eu cyfer. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried yr wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys y mesurau lliniaru a sicrhau drwy'r Gorchymyn a'r gofyniad i brosiectau yn y dyfodol lliniaru eu heffeithiau, ac mae wedi dod i'r casgliad y gellir dweud na fydd yna AEol i unrhyw safle gwarchoddedig.

6. Caffael Gorfodol

- 6.1. I helpu'r gwaith o gyflawni'r Datblygiad Arfaethedig, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod y Ceisydd yn gofyn am bwerau Caffael Gorfodol a Meddiant Dros Dro ar dir sy'n ymwneud â'r gwaith arfaethedig ar y tir. Mae'r Ceisydd yn gofyn am y pwerau hyn er mwyn:

- caffael tir yn barhaol o fewn terfynau'r Gorchymyn;
- meddiannu tir dros dro o fewn terfynau'r Gorchymyn;
- caffael hawliau a chyfamodau cyfyngol presennol dros rywfaint o'r tir o fewn terfynau'r Gorchymyn;
- dileu hawliau a chyfamodau cyfyngol presennol dros rywfaint o'r tir o fewn terfynau'r Gorchymyn;
- creu hawliau a chyfamodau cyfyngol newydd dros rywfaint o'r tir o fewn terfynau'r Gorchymyn; a
- atal hawliau a chyfamodau cyfyngol presennol dros rywfaint o'r tir o fewn terfynau'r Gorchymyn dros dro;

a hynny er mwyn adeiladu, gweithredu a chynnal y Datblygiad Arfaethedig neu i'w hwylyso, neu at ddibenion sy'n gysylltiedig â hynny ef [ER 11.1.1].

- 6.2. Mae'r Ceisydd yn gofyn am bwerau i gaffael yn orfodol dir a hawliau dros dir sy'n angenrheidiol neu a ddefnyddir yn barhaol ar gyfer er mwyn gweithredu a chynnal y Datblygiad Arfaethedig [ER 11.4.2]. Nododd yr ExA Gynlluniau Tir y Ceisydd a oedd yn nodi'r buddiannau tir canlynol – caffael tir yn orfodol yn barhaol; caffael hawliau yn orfodol a meddiannu tir dros dro; a meddiannu tir dros dro yn unig. O'r rhain, mae'r Ceisydd yn gofyn am bwerau ar gyfer 499 o blotiau tir [ER 11.5.16]. Roedd y Ceisydd hefyd yn gofyn am bŵer i gaffael yn orfodol dir y Goron, yn ogystal â chaffael hawliau yn orfodol a meddiannu dros dro dir sy'n perthyn i 'dir categori arbennig' [ER 11.4.11] [ER 11.4.12].

- 6.3. Yn ystod yr Archwiliad, tynnodd y Ceisydd Blotiau 26 a 69a o dir y Gorchymyn gan nad oedd eu hangen mwyach [ER 11.3.8].

- 6.4. Mae'r ExA yn nodi na ellir caniatáu pwerau caffael gorfodol oni bai bod yr amodau a nodir yn adrannau 122 a 123 o Ddeddf 2008, ynghyd â'r canllawiau perthnasol yn

“Guidance Related to Procedures for the Compulsory Acquisition of Land”, DCLG, Medi 2013 (yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol gynt) (Canllawiau Caffael Gorfodol y DCLG) wedi’u bodloni [ER 11.2.2].

- 6.5. Mae adran 122(2) o Ddeddf 2008 yn dweud na chaniateir caffael yn orfodol oni bai:
- bod y tir sydd i’w gaffael yn orfodol yn angenrheidiol ar gyfer y datblygiad y mae’r cydsyniad datblygu yn ymwneud ag ef; neu
 - fod y tir yn angenrheidiol i hwyluso’r datblygiad neu’n gysylltiedig ag ef;
 - ei fod yn dir cyfnewid sydd i’w roi yn gyfnewid am dir y Gorchymyn o dan adrannau 131 neu 132 o Ddeddf 2008; a
 - bod yna achos anorchfygol er budd y cyhoedd.
- 6.6. O ran tir sy’n angenrheidiol ar gyfer y datblygiad, mae Canllawiau Caffael Gorfodol y DCLG yn nodi:
- na chaniateir i’r tir y mae’n ofynnol ei gymryd fod yn fwy nag sy’n rhesymol angenrheidiol a bod rhaid iddo fod yn gymesur;
 - bod rhaid bod angen i’r prosiect gael ei gyflawni;
 - bod pob dewis rhesymol arall yn lle caffael gorfodol wedi’i ystyried;
 - bod gan y ceisydd syniad clir o sut mae’n bwriadu defnyddio’r tir a’i fod yn gallu dangos bod arian ar gael i dalu am gaffael y tir; a hefyd
 - eu bod yn fodlon bod y dibenion a nodir ar gyfer caffael y tir yn ddilys ac yn ddigonol i gyfiawnhau’r ymyrraeth â hawliau dynol y rhai yr effeithir arnynt.
- 6.7. Mae adran 122(3) o Ddeddf 2008 yn ei gwneud yn ofynnol bod achos anorchfygol er budd y cyhoedd dros gaffael y tir yn orfodol. Mae Canllawiau Caffael Gorfodol y DCLG yn dweud ym mharagraffau 12 a 13 y bydd angen perswadio’r Ysgrifennydd Gwladol fod tystiolaeth gref y bydd y manteision cyhoeddus a fyddai’n deillio o gaffael tir yn orfodol yn drech na’r golled breifat a fyddai’n cael ei dioddef gan y rhai y mae eu tir i’w gaffael. Wrth gydbwyso budd y cyhoedd yn erbyn colled breifat, rhaid cyfiawnhau caffael yn orfodol yn ei hawl ei hun [ER 11.2.4]. Mae adran 123 o Ddeddf 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i un o dri amod gweithdrefnol yn is-adrannau (2) i (4) gael ei fodloni gan y cynnig yn y cais, sef:
- 2) bod y cais am y gorchymyn yn cynnwys cais am awdurdodi caffael y tor yn orfodol;
 - 3) bod pawb sydd â buddiant yn y tir yn cydsynio i’r ddarpariaeth gael ei chynnwys;
 - 4) bod y weithdrefn ragnodedig wedi’i dilyn mewn perthynas â’r tir
- 6.8. Rhaid i’r Ceisydd ymdrin â nifer o ystyriaethau cyffredinol hefyd, naill ai o ganlyniad i ddilyn y canllawiau neu yn unol â dyletswyddau cyfreithiol ar y rhai sy’n gwneud penderfyniadau:
- bod pob dewis rhesymol arall yn lle caffael gorfodol (gan gynnwys addasiadau i’r datblygiad) wedi’i ystyried;
 - bod yr ymyrraeth arfaethedig â hawliau’r rhai sydd â buddiant yn y tir yn ateb diben dilys a’i fod yn angenrheidiol ac yn gymesur;

- bod gan y Ceisydd syniad clir o sut y bydd y tir y mae'n bwriadu ei gaffael yn cael ei ddefnyddio;
- bod gobaith rhesymol y bydd yr arian angenrheidiol ar gael; a
- bod y dibenion y mae caffael tir yn orfodol wedi'u cynnwys yn y cais ar eu cyfer yn ddilys ac yn ddigonol i gyfiawnhau ymyrryd â hawliau dynol y rhai sydd â buddiant yn y tir yr effeithir arno. [ER 11.2.5].

- 6.9. O blith y 60 o Sylwadau Perthnasol a ddaeth i law'r ExA, cafwyd 23 gan bartïon yr effeithir arnynt neu y gellid effeithio arnynt gan gaffael gorfodol neu feddiant dros dro (Personau yr Effeithir arnynt) gan gynnwys Ymgymerywr Statudol [ER 11.5.2]. Gwnaed cyflwyniadau ysgrifenedig hefyd gan 6 pherson arall yr effeithir arnynt [ER 11.5.3].
- 6.10. Roedd yr ExA yn fodlon, gan fod buddiannau cyfreithiol y Ceisydd ym mhob plot o dir wedi'u cynnwys yn y Llyfr Cyfeirio a chan y byddai angen Cynlluniau Tir ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig mewn perthynas â phwerau caffael gorfodol a phwerau meddiant dros dro. Roedd yr ExA yn fodlon, mewn perthynas â thir sy'n cael ei gaffael yn orfodol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig, nad yw'r tir sydd i'w gymryd yn fwy nag sy'n rhesymol angenrheidiol a bod y cymeriant tir arfaethedig yn gymesur [ER 11.6.1].
- 6.11. Ystyriodd yr ExA a fyddai'r budd cyhoeddus o ran cyflawni'r Datblygiad Arfaethedig yn drech na'r golled breifat ac ar ôl ystyried achosion unigol, roedd yn fodlon y byddai hynny'n wir. [ER 11.6.2].
- 6.12. O ran adran 127 o Ddeddf 2008, sy'n gymwys i dir sy'n cael ei gaffael gan ymgymerwr statudol, roedd yr ExA yn dal nad oedd y ddarpariaeth yn gymwys i'r cais a'u bod wedi'u bodloni bod y pwerau y mae'r Ceisydd yn gofyn amdanynt mewn perthynas ag ymgymerywr statudol yn angenrheidiol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig, yn unol ag adran 138 o Ddeddf 2008 [ER 11.6.4] [ER 11.6.5].
- 6.13. O ran tir categori arbennig, roedd yr ExA yn fodlon na fyddai tir perthnasol y Gorchymyn, pan fyddai hawliau'r Gorchymyn yn gymwys iddo, yn llai manteisiol nag oedd o'r blaen i bob person perthnasol a'r cyhoedd yn unol ag adran 132(3) o Ddeddf 2008 ac yn unol â hynny, na fyddai'n dod o dan weithdrefn seneddol arbennig [ER 11.6.6].
- 6.14. O ran hawliau dynol, roedd yr ExA yn fodlon bod yr Archwiliad wedi sicrhau gwrandawriad teg a chyhoeddus, bod unrhyw ymyrraeth â hawliau dynol sy'n deillio o weithredu'r Datblygiad Arfaethedig yn gymesur ac yn taro cydbwysedd teg rhwng hawliau'r unigolyn a budd y cyhoedd ac y byddai iawndal ar gael mewn perthynas ag unrhyw golled fesuradwy. [ER 11.6.7].
- 6.15. Dywedodd yr ExA fod angen i'r achos dros bwerau caffael gorfodol fod yn seiliedig ar yr achos dros y Datblygiad Arfaethedig yn gyffredinol a chadarnhaodd y dylid rhoi'r cydsyniad datblygu. Roedd yr ExA yn fodlon bod yna gyfiawnhad dros y pwerau caffael gorfodol y mae'r Ceisydd yn gofyn amdanynt ac y dylid eu rhoi oherwydd gan fod achos anorchfygol er budd y cyhoedd dros gaffael tir a buddiannau perthnasol lle bo hynny'n briodol yn orfodol, ac y byddai'r budd cyhoeddus o alluogi'r Datblygiad Arfaethedig i fwrw ymlaen yn drech na'r colledion preifat i unigolion dan sylw [ER 11.6.8].

- 6.16. Er hynny, aeth yr ExA i'r afael â'r ffaith nad oedd cydsyniad y Goron wedi'i gael yn benodol bryd hynny a heb gydsyniad o'r fath, ni allai'r ExA awdurdodi caffael gorfodol neu feddiannu'r plotiau hynny o dir dros dro [ER 11.6.9]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod Tir y Goron yn dod o dan ddarpariaethau arbennig ac o dan Ddeddf 2008 ni chaniateir caffael buddiannau Tir y Goron yn orfodol ond fe all buddiannau trydydd parti gael eu caffael yn orfodol.
- 6.17. Mewn llythyr a gyflwynwyd gan Ystâd y Goron i'r Arolygiaeth Gynllunio ar 20 Mehefin 2023, cadarnhaodd Comisiynwyr Ystâd y Goron eu bod wedi dod i gytundeb gyda'r Ceisydd a'r cytundeb hwnnw'n rhoi digon o sicrwydd i'r Ystâd y Goron ynglŷn â'r ffordd y bydd pwerau caffael gorfodol yn cael eu harfer mewn perthynas â buddiannau trydydd partiön yn Nhir y Goron sy'n ffurfio rhan o Ystâd y Goron. Gan hynny, cadarnhaodd Ystâd y Goron eu cydsyniad i gaffael buddiannau trydydd parti yn orfodol ym Mhlotiau 6, 11, 12, 28, 29, 31, 32, 35, 48, 53, 55, 56, 58, 61, 255, 257, 258 a 259 at ddibenion adran 135(1) o Ddeddf 2008. Mae cydsyniad Comisiynwyr Ystâd y Goron yn amodol ar ragor o ymgynghori â nhw os cynigir unrhyw amrywiad i'r DCO a allai effeithio ar unrhyw ddarpariaethau eraill yn y Gorchymyn sy'n dod o dan adran 135(1) a 135(2) o Ddeddf 2008.
- 6.18. Mewn llythyr a gyflwynwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol ar 18 Gorffennaf 2023, rhoddodd y Ceisydd ddiweddariad gan gadarnhau bod cytundeb asedau trosglwyddo ar brydles wedi'i gytuno gydag Ystâd y Goron ar gyfer trosglwyddo asedau, a gwblhawyd ar 12 Gorffennaf 2023. Gan hynny, mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod cydsyniad wedi'i roi i gaffael Tir y Goron yn orfodol.
- 6.19. Mewn llythyr i ymateb i'r ymgynghoriad a gyflwynwyd gan y Ceisydd i'r Ysgrifennydd Gwladol ar 29 Awst 2023, mewn ymateb i gais gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am ragor o wybodaeth ar wahanol bwyntiau, darparwyd diweddariadau ar faterion yn ymwneud â chaffael gorfodol. Cadarnhaodd y Ceisydd, o ran Mr JB a Mrs E Evans, fod ymrwymadau wedi parhau ynglŷn â chaffael tir rhydd-ddaliadol a hawliau parhaol a'u bod o'r farn bod y Prif Delerau wedi cyrraedd cyfnod hwyr yn y broses negodi gan ddisgwyl i'r cytundeb terfynol gael ei wneud. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon â'r cynnydd hwn a does ganddi ddim pryderon o sylwedd ynglŷn â chwblhau cytundeb gwirfoddol.
- 6.20. At hynny, rhoddodd y Ceisydd ddiweddariad ar eu hymgysylltiad â Wilson Fearnall ar ran GBL ac IM Kerfoot, ynglŷn â'u barn nhw bod y Ceisydd heb ystyried cynigion amgen addas yn llawn ac amryw bryderon eraill. Cadarnhaodd y Ceisydd y rhagwelir y bydd cyfarfod yn cael ei gynnal ym mis Medi i wyntyllu'r pwnc, gyda'r bwriad o ddod â chytundeb gwirfoddol i ben. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon â'r cynnydd hwn a does ganddi ddim pryderon o sylwedd ynglŷn â chwblhau cytundeb gwirfoddol.
- 6.21. Yn olaf, darparodd y Ceisydd ddiweddariad hefyd ynghylch anghysondeb a amlygwyd gan yr ExA yn yr Adroddiad rhwng y Llyfr Cyfeirio a Chynllun Tir y Goron, lle mae'r olaf yn dweud bod gan 'Ei Ardderchocaf Fawrhydi yn Rhinwedd Ei Goron' (h.y. Ystâd y Goron) fel pe bai ganddo fuddiant yn y tir o fewn yr arysgrifau ar Ddalenni 4 a 5, tra bo'r Llyfr Cyfeirio yn enwi Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Gweinidogion Cymru neu Lywodraeth Cymru fel y buddiant tir perthnasol [ER 11.5.205]. Cadarnhaodd y Ceisydd fod Cynllun Tir y Goron wedi'i ddiweddarau i egluro bod y plotiau ar Ddalenni 4 a 5 yn blotiau sy'n perthyn i Weinidogion Cymru. Mae'r

Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon â'r diweddariad hwn ac mae o'r farn bod y mater hwn wedi'i ddatrys.

- 6.22. Ar hyn o bryd mae'r DCO yn caniatáu terfyn amser o 7 mlynedd ar gyfer dechrau, yn unol ag [ER 12.4.60] yn yr Adroddiad. Mae'r ExA o'r farn bod tystiolaeth wedi'i dangos ynglŷn a'r angen hwn sydd ar y Ceisydd, ac o'r herwydd mae wedi'i gadw yn yr rDCO [ER 12.4.62].

Casgliadau'r Ysgrifennydd Gwladol

- 6.23. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliadau'r ExA ac mae o'r farn bod amodau 122(2) a (3) a 123(2) a (3) o Ddeddf 2008 wedi'u bodloni a bod achos anorchfygol er budd y cyhoedd dros roi pwerau caffael gorfodol a phwerau meddiant dros dro i hwyluso'r Datblygiad Arfaethedig. Gan hynny, mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn nad yw'r mater hwn yn pwysu yn erbyn gwneud y Gorchymyn.
- 6.24. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi safbwynt yr ExA ar derfynau amser ar gyfer caffael tir ond mae o'r farn y byddai dull 5 mlynedd safonol yn ddigonol yn achos y Ceisydd, a fyddai'n dal i alluogi'r Ceisydd i wneud cais am estyniad pe bai angen hynny, yn amodol ar y cyfiawnhad priodol. Mae'r DCO wedi'i ddiwygio yn unol â hynny.
- 6.25. Does gan yr Ysgrifennydd Gwladol ddim rheswm i gredu y byddai caniatáu'r Gorchymyn yn arwain at unrhyw ymyrraeth anghymesur neu anghyfiawn â hawliau dynol er mwyn gwrthdaro â darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998.
- 6.26. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod y diweddariad a'r ymateb ymgynghori a ddarparwyd gan y Ceisydd ar ôl yr Archwiliad yn ddigon i ddatrys y nifer o ymholiadau a oedd heb eu datrys ynglŷn â chytundebau gwirfoddol a chydsyniad Tir y Goron.

7. Ystyriaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ar y Cydbwysedd Cynllunio

- 7.1. Pan fo NPSs yn cael effaith, mae adran 104 o Ddeddf 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol roi sylw i ystod o ystyriaethau polisi gan gynnwys yr NPSs, y Cynlluniau Datblygu a'r LIRs perthnasol a baratowyd gan awdurdodau cynllunio lleol wrth ddod i benderfyniad.
- 7.2. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliadau'r ExA ar bwysau cynllunio yn achos y materion canlynol:
- Hedfan (niwtral);
 - Perygl Llifogydd ac Ansawdd Dŵr (niwtral);
 - Prosesau Ffisegol Morol ac Arfordirol (niwtral);
 - Morol - Pysgodfeydd Masnachol, Llongau a Mordwyo (niwtral);
 - Ansawdd Dŵr a Gwaddod Morol (niwtral); ac
 - Ystyriaethau eraill (niwtral);
- 7.3. Daeth yr ExA i'r casgliad bod ystyriaethau sosio-economaidd yn pwysu'n gadarnhaol yn y cydbwysedd cynllunio. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried y mater yn ofalus ac wedi rhoi pwysau cadarnhaol cymedrol i'r ystyriaethau sosio-economaidd.

- 7.4. Ystyriodd yr ExA y niwed a achosid i asedau treftadaeth, a thirwedd a materion gweledol a rhoddodd bwysau cymedrol iddynt yn erbyn gwneud y Gorchymyn. Bu'r ExA hefyd yn ystyried yr effeithiau niweidiol i'r morlun, y dirwedd a'r effeithiau gweledol gan gredu bod y pwysoliad o fewn ffiniau niwed arwyddocaol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r casgliadau hyn.
- 7.5. Bydd pob NSIP yn dod â rhai effeithiau niweidiol posibl. Yn achos y Datblygiad Arfaethedig, aseswyd y rhan fwyaf o'r effeithiau posibl gan yr ExA fel pe na baent wedi torri NPS EN-1, NPS EN-3, NPS EN-5 na'r rhai a gynhwysir yn yr NPSs drafft sy'n dod i'r amlwg, yn amodol mewn rhai achosion ar ddefnyddio mesurau lliniaru addas i'w lleihau neu i'w hosgoi'n llwyr yn unol â gofynion polisi'r NPS. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod y mesurau lliniaru hyn wedi'u sicrhau'n briodol.
- 7.6. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried holl fanteision ac anfanteision y Datblygiad Arfaethedig, ac wedi dod i'r casgliad, ar sail y cydbwysedd, bod manteision y Datblygiad Arfaethedig yn drech na'i effeithiau negyddol, yn benodol, cyfrannu trydan adnewyddadwy i'r angen brys i ddatgarboneiddio'r cyflenwad trydan.

8. Materion Eraill

Deddf Cydraddoldeb 2010

- 8.1. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys "*dyletswydd cydraddoldeb gyffredinol*" ar gyfer y sector cyhoeddus (PSED). Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi sylw priodol wrth arfer eu swyddogaethau i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010; hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt; a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt a hynny mewn perthynas â'r "nodweddion gwarchoddedig" a ganlyn: oedran; rhywedd; ailbennu rhywedd; anabled; priodasau a phartneriaethau sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; crefydd a chred; a hil.
- 8.2. Wrth ystyried y mater hwn, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol (fel penderfynwr) roi sylw dyledus i nodau'r PSED. Rhaid i hyn gynnwys ystyried yr holl effeithiau posibl ar gydraddoldeb a amlygwyd yn ystod yr Archwiliad. Gall fod anfantais i bartïon yr effeithir arnynt ond, os oes, rhaid cydnabod hynny a rhaid ystyried yr effeithiau ar gydraddoldeb.
- 8.3. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd hon ac nid yw wedi nodi unrhyw bartïon â nodwedd warchoddedig y gellid gwahaniaethu yn eu herbyn o ganlyniad i'r penderfyniad i roi cydsyniad i'r Datblygiad Arfaethedig.
- 8.4. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn hyderus, wrth wneud y penderfyniad a argymhellir, ei bod wedi rhoi sylw dyledus i'r nodau uchod wrth ystyried effeithiau posibl rhoi neu wrthod cydsyniad ac y gall ddod i'r casgliad na fydd y Datblygiad Arfaethedig yn arwain at unrhyw effeithiau gwahaniaethol ar bobl sy'n rhannu unrhyw un neu ragor o'r nodweddion gwarchoddedig. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn dod i'r casgliad felly nad yw rhoi cydsyniad yn debygol o arwain at effaith arwyddocaol ar gyfle cyfartal neu berthnasoedd rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchoddedig ac eraill neu wahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn unrhyw nodweddion gwarchoddedig penodol.

Adran 6(1) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

- 8.5. Yn unol â'r ddyletswydd yn adran 6(1) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth mewn ecosystemau, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau sy'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol. Yn benodol, yn unol ag adran 6(4)(a), dylid ystyried Confensiwn Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol 1992. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod Adroddiad ExA yn ystyried bioamrywiaeth yn unol â'r ddyletswydd hon.
- 8.6. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod Adroddiad yr ExA, ynghyd â'r Aseiad Effaith Amgylcheddol, yn ystyried bioamrywiaeth yn ddigonol i'w hysbysu yn hyn o beth. Wrth ddod i'r penderfyniad i roi cydsyniad i'r Datblygiad Arfaethedig, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi sylw dyledus i gadw bioamrywiaeth.

9. Casgliadau a Phenderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol

- 9.1. Am y rhesymau a roddir yn y llythyr hwn, mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod manteision y Datblygiad Arfaethedig yn drech na'i effeithiau niweidiol a bod y materion sy'n ymwneud â'r Rheoliadau Cynefinoedd wedi'u bodloni. O ganlyniad, mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn y dylid rhoi cydsyniad datblygu ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr. Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn credu bod yr angen cenedlaethol am y Datblygiad Arfaethedig fel y'i nodir yn yr NPSs perthnasol yn cael ei drechu gan effeithiau niweidiol posibl y Datblygiad, fel y'i cânt eu lliniaru gan delerau arfaethedig y Gorchymyn.
- 9.2. Gan hynny, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi penderfynu derbyn argymhelliad yr ExA i gydsynio. Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cadarnhau bod ystyriaeth wedi'i rhoi i Adroddiad yr ExA, yr LIRs, yr NPSs, yr NPSs drafft, ac i bob mater arall y bernir eu bod yn bwysig ac yn berthnasol i benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â'r gofynion yn adran 104 o Ddeddf 2008. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cadarnhau at ddibenion rheoliad 4(2) o'r Rheoliadau EIA fod yr wybodaeth amgylcheddol fel y'i diffinnir yn rheoliad 3(1) o'r Rheoliadau hynny wedi cael ei chymryd i ystyriaeth.

10. Addasiadau i'r Gorchymyn drafft

- 10.1. Ar ôl ystyried y Gorchymyn drafft a ddarparwyd gan yr ExA, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud yr addasiadau a ganlynol iddo:
- a. Diwygiadau i'r diffiniadau yn erthygl 2(1) (Dehongli):
- i. Cynnwys diffiniadau ar gyfer", "Defence Infrastructure Organisation Safeguarding", "highway", "horizontal directional drilling", "landfall", "meteorological mast", "offshore electrical platform", "owner", "scour protection" and "watercourse" a hepgor y diffiniad o "Tribunal".
 - ii. Diwygio'r diffiniad o "land plans" i bennu ei fod yn golygu dogfennau a ardystiwyd fel y cynllun tir (alltraeth) a'r cynllun tir (ar y tir).

- iii. Diwygio'r diffiniad o "Order limits" i bennu bod y terfynau'n cydberthyn i'r cyfesurynnau tua'r môr o'r MHWS fel y nodir yn Nhabl 1 yn Rhan 1 o Atodlen 1 (datblygu a awdurdodwyd) o'r Gorchymyn hwn.
- b. Diwygio Rhan 2 (Prif Bwerau)
- i. Diwygio Erthygl (3) i egluro nad oes unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn yn rhyddhau ymgwymerwr rhag unrhyw ofyniad i gael unrhyw drwydded bellach o dan Ran 4 o Ddeddf 2009.
 - ii. Diwygio Erthygl 6(2)(b) i egluro bod Erthygl 6(2)b yn gymwys ac eithrio pan roddir hysbysiad yn unol â Rhan 2, adran 6(8), ac os felly nad oes angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol.
 - iii. Diwygio Erthygl 6(3) i Erthygl 6(6) ac ychwanegu Erthygl 6(7) i 6(10) i bennu gofynion ynglŷn â hysbysu. Mae hyn yn gyson â'r safbwynt a arddelwyd mewn Gorchymynion Cydsyniad Datblygu blaenorol.
- c. Diwygio Rhan 4 (Pwerau Atodol)
- i. Cynnwys "drain" yn erthygl 14(2).
 - ii. Diwygio Erthygl 17(12) i adlewyrchu geiriad adran 25 o Ddeddf Claddu 1857 bod symud corff o fynwent yn drosedd.
- d. Diwygio Rhan 5 (Pwerau Caffael)
- i. Diwygio Erthygl 19 (Terfyn amser ar gyfer arfer awdurdod i gaffael tir yn orfodol) i newid y terfyn amser ar gyfer arfer awdurdod i gaffael y tir yn orfodol i 5 mlynedd yn hytrach na 7 mlynedd, a diwygiadau dilynol i Erthyglau 23 a 25 a Pharagraff 1 o Atodlen 2. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi safbwynt yr ExA ar derfynau amser ar gyfer caffael tir ond mae hi o'r farn y byddai dull 5 mlynedd safonol yn ddigonol yn achos y Ceisydd, a fyddai'n dal i alluogi'r Ceisydd i wneud cais am estyniad pe bai angen hynny, yn amodol ar y cyfiawnhad priodol.
 - ii. Diwygio Erthygl 20(1) i ddynodi ei fod yn ddarostyngedig i Erthygl 20(2).
 - iii. Ychwanegu "expiry of time limit for exercise of compulsory purchase power not to affect acquisition of" yn Erthygl 25(4).
 - iv. Diwygio Erthygl 30(3) gan ddiffinio ymgwymerwr cyfleustod cyhoeddus fel "a gas, water, electricity or sewerage undertaker".
 - v. Egluro bod Erthygl 33(1) yn ddarostyngedig i baragraff (2) ac Erthygl 34 (coed sy'n destun gorchymynion cadw coed).
 - vi. Diwygio Erthygl 33(4) i gyfyngu gwrychoedd i'r rhai sydd o fewn terfynau'r Gorchymyn a'r rhai a bennir yn Atodlen 10.

Atodlen 2 (Gofynion)

- e. Diwygio Gofyniad 4 (offshore noise) i dynnu'r geiriau 'or with the prior written approval of the Secretary of State in consultation with the relevant planning authority'. Bernir bod gofyn am gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn yr amgylchiadau hyn yn anarferol a phe bai'r Ceisydd am gynyddu lefel sŵn y môr yn barhaol, yna gellid gwneud cais am newid nad yw'n sylweddol.
- f. Diwygio Gofyniad 7(2)(b)(i) (Paramedrau dylunio manwl ar y tir) i egluro mai'r "main gas switchgear substation" yw'r adeilad y cyfeirir ato.
- g. Diwygio Gofyniad 10 (Cod ymarfer adeiladu) i egluro mai'r awdurdod cynllunio perthnasol biau'r gymeradwyaeth, mewn ymgynghoriad â'r awdurdod priffyrdd fel y bo'n briodol.
- h. Ailrifo Gofynion 23 a 24 fel Gofynion 26 a 27 yn y drefn honno, a diwygio'r Gofyniad 27 sydd wedi'i ailrifo 27 (diwygio manylion a gymeradwywyd) i egluro mai dim ond y person a fyddai'n rhoi cydsyniad i gyflawni'r gofynion sy'n gallu cymeradwyo diwygiadau. Mae hyn yn gyson â'r safbwynt a arddelwyd mewn Gorchmynion Cydsyniad Datblygu blaenorol.

Atodlen 9 (Darpariaethau Amddiffynnol)

- i. Diwygio Atodlen 9 (darpariaethau amddiffynnol) yn y Rhannau a ganlyn:
- ii. Paragraff 33, Rhan 3 (i amddiffyn y Grid Cenedlaethol) i egluro mai cynllun "of the works to be executed" yw'r cynllun y mae'n rhaid ei gyflwyno.
- iii. Paragraff 72(a), Rhan 6 (i amddiffyn Network Rail Infrastructure Limited) i egluro mai'r ymgwymerwr sy'n gorfod "indemnify Network Rail and keep Network Rail indemnified from and against all claims and demands arising out of or in connection with a specified work or any such failure, act or omission".
- iv. Paragraff 103 o Ran 9 (i amddiffyn Wales and West Utilities), i bennu mai cytundeb "Wales and West Utilities" sy'n gorfod cael ei geisio gan yr ymgwymerwr.
- v. Diwygiadau i Ran 11 (i amddiffyn North Hoyle Wind Farm Limited), sef:
 - Diwygio "proposed timetable for the work" ym Mharagraff 141 (Dehongli).
 - Diwygio "specified works" ym Mharagraff 141 (Dehongli).
 - Diwygio'r diffiniad o "undertaker cables" ym Mharagraff 141 (Interpretation) i fod yn gyson a geiriad Gwaith Rhif 2.
 - Diwygio Paragraff 152(1)a i egluro y dylai fod yn gymwys o fewn radiws o 250m o'r manau croesi.
 - Cynnwys darpariaethau ym Mharagraff 157 mewn perthynas a gwaith yn y dyfodol yng nghyffiniau ceblau'r ymgwymerwr.
 - Diwygio Paragraff 166 i newid yr arian i ewros gan y byddai'r ymgwymerwr yn yswirio drwy'r farchnad yswiriant Ewropeaidd.
 - Cynnwys cymal cyflafareddu ym Mharagraff 169 i gadarnhau'r broses datrys anghydfodau os ceir anghydfod.

Atodlen 12 (Rheolau Cyflafareddu)

- i. Diwygiad sydd, yn ddarostyngedig i Baragraff 7(2) a (3), yn ei gwneud yn ofynnol i wrandawiadau a dogfennau cyflafareddu fod yn agored ac yn hygyrch i'r cyhoedd.
- 10.2. Yn ychwanegol at yr uchod, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud amryw o newidiadau i'r Gorchymyn drafft nad ydynt yn newid ei effaith yn arwyddocaol, gan gynnwys newidiadau i gydymffurfio â'r arferion presennol ar gyfer offerynnau statudol a newidiadau er budd eglurder a chysondeb. Mae'r Gorchymyn, gan gynnwys yr addasiadau y cyfeirir atynt uchod, yn cael ei gyhoeddi gyda'r llythyr hwn.

11. Cyhoeddusrwydd i'r Penderfyniad

- 11.1. Mae cyhoeddusrwydd yn cael ei roi i benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar y Cais hwn yn unol â'r gofynion yn adran 116 o Ddeddf 2008 a rheoliad 31 o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effaith Amgylcheddol) 2017.
- 11.2. Mae adran 134(6A) o Ddeddf Cynllunio 2008 yn darparu y bydd hysbysiad prynu gorfodol yn bridiant tir lleol. Mae adran 134(6A) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r hysbysiad prynu gorfodol gael ei anfon at y Prif Gofrestrydd Tir, a bydd hyn yn wir pan fydd y gorchymyn wedi'i leoli mewn ardal lle mae'r Prif Gofrestrydd Tir wedi rhoi hysbysiad mai nhw bellach sy'n cadw'r gofrestr pridiannau tir lleol yn sgil newidiadau a wnaed gan Atodlen 5 i Ddeddf Seilwaith 2015. Er hynny, pan fo tir yn y Gorchymyn wedi'i leoli mewn ardal lle mae'r awdurdod lleol yn dal yn awdurdod cofrestru ar gyfer pridiannau tir lleol (gan nad yw'r newidiadau a wnaed gan Ddeddf Seilwaith 2015 wedi cael effaith eto), dylai'r darpar brynwr gydymffurfio â'r camau sy'n ofynnol o dan adran 5 o Ddeddf Pridiannau Tir Lleol 1975 (cyn iddi gael ei diwygio gan Ddeddf Seilwaith 2015) i sicrhau bod y pridiant wedi'i gofrestru gan yr awdurdod lleol.

Yn gywir,

David Wagstaff OBE

Pennaeth Datblygu Seilwaith Ynni

HERIAU CYFREITHIOL YNGLŶN Â CHEISIADAU AM ORCHMYNION CYDSYNIAD DATBLYGU

O dan adran 118 o Ddeddf Cynllunio 2008, dim ond drwy gais am adolygiad barnwrol y gellir herio Gorchymyn sy'n rhoi cydsyniad datblygu, neu unrhyw beth a wnaed, neu a hepgorwyd, gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â chais am Orchymyn o'r fath. Rhaid i gais am adolygiad barnwrol gael ei wneud i'r Llys Cynllunio yn ystod y cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau drannoeth y diwrnod y cyhoeddir y Gorchymyn. Mae dogfennau'r penderfyniad yn cael eu cyhoeddi ar ddyddiad y llythyr hwn ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio yn y cyfeiriad canlynol:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/awel-y-mor-offshore-wind-farm/>

Fel canllawiau yn unig y darperir y nodiadau hyn. Cynghorir person sy'n credu y gallai fod ganddo sail dros herio'r penderfyniad i wneud y Gorchymyn y cyfeirir ato yn y llythyr hwn i geisio cyngor cyfreithiol cyn cymryd unrhyw gamau. Os oes arnoch angen cyngor ar y broses o wneud unrhyw her dylech gysylltu â Swyddfa'r Llys Gweinyddol yn y Llysoedd Cyfiawnder Brenhinol, Strand, Llundain, WC2A 2LL (0207 947 6655).

(ATODIAD B) RHESTR O DALFYRIADAU

Talfyriad	Cyfeiriad
AA	Asesiad Priodol
AEol	Effaith Niweidiol ar Gyflawnder
AIS	Is-orsaf Aer wedi'i Inswleiddio
ALC	Dosbarthiad Tir Amaethyddol
AONB	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
BMVAL	Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Hyblyg
CBSC	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
CEA	Asesiad Effeithiau Cronnol
CLS	Datganiad Ieithyddol Cymunedol
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
CSD	Cyngor Sir Ddinbych
CTMP	Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu
DCO	Gorchymyn Cydsyniad Datblygu
dDCO	Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft
ECC	Coridor CebI Allforio
EIA	Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol
ES	Datganiad Amgylcheddol
ExA	Awdurdod Archwilio
FLCEP	Cynllun Cyswllt a Chydfodoli Pysgodfeydd
FRAP	Trwydded Gweithgareddau Perygl Llifogydd
HPAI	Ffliw Adar Pathogenig Iawn
HRA	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
INNS	Rhywogaethau Estron Goresgynnol
LCA	Ardal Cymeriad Tirwedd
LEMP	Chynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg
LIR	Adroddiad ar yr Effaith Leol
LSE	Effaith Arwyddocaol Debygol
L VIA	Asesiad o'r Effaith Weledol ar y Dirwedd
MCA	Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau
MWH	Oriau Megawat
NATS	Gwasanaethau Traffig Awyr Gwladol
NPS	Datganiad Polisi Cenedlaethol
NRA	Asesiad o'r Risg i Fordwyo
NSIP	Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol
oCMS	Datganiad Dull Adeiladu amlinellol
oLEMP	Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg amlinellol
OnSS	Is-orsaf ar y Tir
oPPEIRP	Cynllun Atal Llygredd ac Ymateb i Ddigwyddiadau Brys amlinellol
R	Gofyniad
rDCO	Gorchymyn Cydsyniad Datblygu a Argymhellir

RFWF	Fferm Wynt Gwastadeddau'r Rhyl
RIAA	Adroddiad i Lywio Asesiad Priodol
SLVIA	Asesiad o'r Morlun, y Dirwedd a'r Effaith Weledol
SoDdGA	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
WFD	Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr